Awdurdod Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Adroddiad yr Ymgynghoriad ar Gynllun Gweithredu Lleihau Risg Drafft 2008/09

Medi 2007
Adran Cynllunio Strategol a Pherfformiad
Pencadlys y Gwasanaeth

C y n n w y s

		Tudalen
1.0	Crynodeb Gweithredol	2
2.0	Cyflwyniad a Phwrpas yr Adroddiad	5
3.0	Strategaeth yr Ymgynghoriad a Methodoleg	6
3.1	Yr Ymgynghoriad – Budd-ddalwyr Allanol	6
3.2	Yr Ymgynghoriad – Budd-ddalwyr Mewnol, Staff a Chyrff Cynrychiolaidd	8
3.3	Strategaeth y Cyfryngau	8
4.0	Trafodaeth Anffurfiol gyda'r Cynulliad Cymreig	8
5.0	Proffil o Ymatebwyr	9
6.0	Sut Aethpwyd ati i Ddadansoddi'r Ymatebion	11
7.0	Canlyniadau'r Ymgynghoriad	12
7.1	Ardaloedd Cwm Tawe Uchaf a Dyffryn Aman Uchaf	12
7.2	Systemau Dyletswydd	25
8.0	Casgliadau	28

1.0 Crynodeb Gweithredol

Mae gweledigaeth yr Awdurdod ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn un o berfformiad uwch a gwell gwasanaethau. Rydym ni eisoes yn gwneud ein gwaith yn dda, ond rydym eisiau ei wneud yn well. Ar ddiwedd mis Hydref 2006, fe wnaeth Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru gymeradwyo ei Gynllun Lleihau Risg cyntaf, yn dwyn y teitl 'Gwneud Ein Cymuned yn Fwy Diogel'. Mae'r cynllun yn cwmpasu cyfnod o 3 blynedd, rhwng 2007-2010, a chafodd ei ddatblygu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru - "Cymru Gwlad Ddiogelach" a'r "Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru". Mae Cynllun Gweithredu Lleihau Risg Drafft 2008/09 yn adeiladu ar sylfaen y cynllun 3 blynedd, a chafodd ei gyhoeddi ym mis Mai 2007, ac ymgynghorwyd ynghylch dau brif gynnig. Bu'r cynigion yn agored i broses ymgynghori bellgyrhaeddol, i ganfod barnau'r cyhoedd, budd-ddalwyr allweddol a'r staff. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r broses o ymgynghori, yr ymatebion a dderbyniwyd a chanlyniadau'r ymarfer hwn.

Cynigion

Roedd dau brif gynnig yn gynwysedig yng Nghynllun Gweithredu Drafft 2008/2009. Sef:

1. Opsiynau i Leihau Risg yng Nghwm Tawe Uchaf a Dyffryn Aman Uchaf.

Roedd y cynnig hwn yn ymwneud â newid y trefniadau criwio yng ngorsaf dân Pontardawe o griw llawn amser, 24 y dydd, i griw dydd, lle byddai diffoddwyr tân llawn amser yn bresennol yn yr orsaf ar yr adegau pan fod risg a gweithgarwch ar ei uchaf, tu allan i'r oriau yma buasai'r diffoddwyr tân wrth gefn a byddent yn cael eu galw i fynychu pan fod digwyddiadau'n amlygu'n unig. Mae gorsaf dân gymunedol newydd sbon yn arfaethedig yn Nyffryn Aman Uchaf, gyda'r ail beiriant o Rydaman yn cael ei adleoli i'r safle newydd. Yn draethadwy, y cynnig hwn a wnaeth ddenu'r ymateb mwyaf, yn enwedig gan aelodau o staff ac aelodau etholedig o'r cymunedau a effeithir yn uniongyrchol. Cafodd yr Awdurdod syndod mai ychydig o ymatebion oedd yn cefnogi'r cynigion, yn enwedig i'r ardal ble'r oedd yn bwriadu darparu gorsaf. Daeth llawer o ymatebion cefnogol o'r cymunedau tu allan i'r ardal, a oedd yn gefnogol yn gyffredinol o ymdrechion yr Awdurdod i leihau risg yn yr ardal hon.

Fe wnaeth y mwyafrif o ymatebwyr gofnodi eu gwrthwynebiad i'r cynnig, er gwaethaf ymdrechion i roi darlun clir i'r budd-ddalwyr o fanylion a manteision y cynnig, trwy gyfrwng cyfarfodydd cyhoeddus a chyflwyniadau i Aelodau Cynulliad, Awdurdodau Unedol a Chynghorau Tref a Chymuned, ac i staff yn y gorsafoedd a effeithir.

Derbyniwyd y mwyafrif o ymatebion trwy gwblhau'r holiadur a ddarparwyd, cofnodwyd rhai sylwadau yn ystod y cyfarfodydd a'r sesiynau briffio a ddarparwyd, ond dewisodd llawer o ymatebwyr i ddarparu llythyrau hir neu adroddiadau yn amlinellu eu pryderon. Derbyniwyd mwyafrif yr ymatebion a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig oddi wrth:-

- Staff a effeithir yn uniongyrchol gan y cynigion
- Aelodau Seneddol ac Aelodau Cynulliad
- Cynghorau Tref a Chymuned,
- Aelodau o'r cyhoedd yn ardal Pontardawe
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd a Phort Talbot

Yn eu hymateb ffurfiol, fe wnaeth Cyngor Castell-nedd a Phort Talbot fynegi eu bod yn edmygus o gyflawniadau'r Awdurdod o safbwynt diogelwch yn y gymuned, ond eu bod yn gwrthwynebu'n gryf y cynnig i newid y trefniadau criwio ym Mhontardawe. Gwnaethpwyd yr ymateb hwn yn dilyn sesiwn friffio i'r cyngor gan uwch swyddogion. Hefyd, fe wnaeth aelodau o awdurdod lleol yr ardal ymateb ar wahân, gan leisio gwrthwynebiad cadarn i'r cynnig. Derbyniwyd ymatebion oddi wrth ddau Aelod Seneddol ac 8 Aelod Cynulliad. Roedd Aelod Seneddol lleol a nifer o Aelodau Cynulliad lleol yn gwerthwynebu'r cynnig, ond cafodd pryderon eu crybwyll hefyd gan Aelodau Cynulliad eraill ac un Aelod Seneddol. Cyflwynwyd deiseb ac arni 5,000 o lofnodion, a arwyddwyd gan drigolion lleol yn gwrthwynebu'r cynnig, gan Aelod Cynulliad lleol. Hefyd, sefydlwyd deiseb ar lein ar safle gwe'r Prif Weinidog. Roedd yna ddiffyg cefnogaeth nodadwy oddi wrth gymunedau Dyffryn Aman Uchaf, ble y bwriadwyd lleoli'r orsaf newydd, ac roedd hyn yn syndod ac yn siom mawr i'r Awdurdod.

Y prif feysydd pryder, a archwilir ymhellach ym mhrif gorff yr adroddiad, oedd:-

- Y cynnydd yn amser ymateb peiriant Pontardawe gyda'r nos
- Dilysrwydd daroganau'r model Gwarchodaeth Dân Gwasanaethau Tân (FSEC)
- Y data gweithgarwch a gyhoeddwyd
- Recriwtio, hyfforddi a chadw criwiau wrth gefn
- Eglurder y cynnig
- Yr achos busnes a'r cynllun gweithredu
- Ystyriaethau ariannol

Cafodd yr holl ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad eu dadansoddi, a chafodd yr holl feysydd sy'n peri pryder eu hystyried yn fanwl. Darganfuwyd fod yr holl bwyntiau a gafodd eu crybwyll wedi cael eu nodi a'u dwyn i ystyriaeth gan yr Awdurdod cyn gwneud y cynnig. Hefyd, archwiliwyd a gwerthuswyd lefel yr ymateb a'r gwrthwynebiad i'r cynnig. Mae'r Awdurdod yn fodlon na chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth newydd fel rhan o'r ymgynghoriad, ac erys y ddadl broffesiynol dros y cynnig yn gadarn. Felly, mae gweithredu'r cynigion i leihau risg yng Nghwm Tawe Uchaf a Dyffryn Aman Uchaf yn ddilys, a bydd yn cychwyn yn 2008/2009.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y bydd gweithredu'r newidiadau yng Nghwm Tawe Uchaf a Dyffryn Aman Uchaf yn golygu cynllunio manwl o ran y prosiect, a bydd cynllunio'r prosiect hwn yn dwyn i ystyriaeth y meysydd a adnabuwyd gan yr Awdurdod ac a gadarnhawyd o ganlyniad i'r broses o ymgynghori. Bydd sylweddoli'r newidiadau'n cymryd amser, ymdrech a buddsoddiad ar ran yr Awdurdod, a bydd yn golygu gweithio gyda phartneriaid i fwyhau manteision y gwelliannau.

2. Systemau dyletswydd mewn gorsafoedd dyletswydd sifft.

Mae adolygiad o'r system dyletswydd mewn gorsafoedd sifft yn ofynnol, gan nad yw'r trefniadau presennol yn hyblyg, ac yn aml mae'r nifer o ddiffoddwyr tân ar y peiriant yn is na'r hyn a ystyrir yn optimaidd. Mae'r Awdurdod eisiau cynyddu nifer y diffoddwyr tân ar y pwmp i wella diogelwch a darparu'r nifer cywir ar ddyletswydd bob amser, ac felly gwneud y defnydd gorau o adnoddau. Penodwyd ymgynghoriaeth yn gynnar yn 2007, i weithio gyda'r swyddogion i ymchwilio i well ffyrdd o drefnu ein staff a gyflyrwyd i'r system dyletswydd sifft. Cwblhawyd yr astudiaeth dichonoldeb cychwynnol ar gyfer y gwaith hwn ac mae nifer o wahanol opsiynau ar gael. Roedd yr Awdurdod yn teimlo ei bod hi'n hanfodol bod hyn yn cael ei ymgynghori yn ei gylch yn y cynllun gweithredu drafft. Buasai hyn yn galluogi'r staff a budd-dalwyr eraill i roi eu barnau ar yr hyn sy'n bwysig iddynt oddi wrth system dyletswydd, a buasai'n cyfarwyddo'r adolygiad parhaus.

Anogwyd y staff i roi eu barnau ar yr hyn sy'n bwysig iddynt a beth yr oeddent yn dymuno'i gael oddi wrth system dyletswydd newydd, ac yn ôl y disgwyl daeth y mwyafrif o sylwadau oddi wrth aelodau o staff. Hefyd, derbyniwyd rhai ymatebion yn cefnogi'r cynnig yn gyffredinol, oddi wrth Gynghorau Tref a Chymuned yn bennaf, a oedd hefyd yn argymell y dylai rhai amodau fod yn gymwys i weithredu'r cynllun. Roedd y sylwadau yma fel a ganlyn:-

- Dylid medru cyfiawnhau'r newidiadau trwy ddadansoddi cadarn a thystiolaeth glir.
- Ni ddylid effeithio ar amserau ymateb a'r nifer sy'n mynychu.
- Dylid ymgynghori â staff a chyrff cynrychiolaidd a'u cynnwys wrth wneud penderfyniadau.
- Dylid rhoi cefnogaeth a hyblygrwydd i gynorthwyo staff a gyflyrwyd i'r system newydd.

Roedd gan y staff farnau pendant am yr hyn sy'n bwysig iddynt a chafodd llawer o sylwadau eu crybwyll yn y meysydd canlynol:-

- Nid oeddent yn credu fod angen archwilio'r System Dyletswydd
- Nid oedd digon o wybodaeth ar gael am y cynnig
- Mai ymarfer i gwtogi ar gostau yw hwn
- Buasai gostyngiad yn y niferoedd ar ddyletswydd yn effeithio ar griwio peiriannau arbennig
- Nid yw'r ymgynghorwyr yn deall trefniadau'r orsaf

O'r ymatebion a ddaeth i law, roedd yn amlwg mai ffactor pwysicaf unrhyw newid i'r system oedd cynnal y system sifft *4 ar ddyletswydd 4 oddi ar ddyletswydd* bresennol, lle dilynir patrwm gwaith o 2 ddiwrnod a 2 noson gan 4 diwrnod oddi ar ddyletswydd. Hoffwyd y patrwm sifft hwn am y rhesymau canlynol:-

- Mae'r patrwm sifft hwn yn deulu gyfeillgar ac yn hyblyg
- Mae'r system yn galluogi'r trefniadau presennol yn yr orsaf
- Gellir darogan gwyliau a gofyn amdanynt o flaen llaw
- Mae'r amser oddi ar ddyletswydd yn rhoi cyfnodau digonol o orffwys rhwng sifftiau
- Datblygwyd perthnas waith agos

Mae'r ymatebion a dderbyniwyd wedi bod yn amhrisiadwy wrth roi cadarnhad o'r hyn mae'r staff a'r gymuned eisiau oddi wrth system dyletswydd. Nodwyd y pryderon ynglŷn â sut fyddai unrhyw newidiadau'n cael eu gweithredu a'r angen i greu enillion effeithlonrwydd, heb effeithio ar y gallu gweithredol, a byddant yn cael eu defnyddio i gyfarwyddo'r broses. Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth yn ystod yr ymgynghoriad sy'n groes i brif amcanion y cynnig.

Cydnabuwyd y bydd y prosiect yn galw am fuddsoddiad o ryw fath i ddarparu fframwaith sy'n gweithio'n effeithiol, ond bydd y costau yma'n cael eu gwneud yn iawn, a mwy, gan fanteision defnyddio ein hadnoddau'n fwy effeithiol a gwella diogelwch ac argaeledd diffoddwyr tân. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn cael eu defnyddio i gyfarwyddo'r prosiect ar newid systemau dyletswydd, a bydd y prosiect yn datblygu fel a ganlyn:-

- Bydd gweithgor yn cael ei sefydlu
- Bydd cynigion manwl yn cael eu llunio mewn cydweithrediad â'r staff
- Bydd grwpiau ffocws yn cael eu trefnu
- Bydd trafodaethau'n cael eu cynnal gyda chyrff cynrychiolaidd
- Bydd rhaglen i gyfathrebu'n uniongyrchol â'r staff a effeithir yn cael ei datblygu.

2. Cyflwyniad a Phwrpas yr Adroddiad

Mae gweledigaeth yr Awdurdod ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn un o berfformiad uwch a gwell gwasanaethau. Rydym ni eisoes yn gwneud ein gwaith yn dda, ond rydym eisiau ei wneud yn well. Ar ddiwedd mi Hydref 2006, fe wnaeth Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru gymeradwyo ei Gynllun Lleihau Risg cyntaf, yn dwyn y teitl 'Gwneud Ein Cymuned yn Fwy Diogel'. Mae'r cynllun yn cwmpasu cyfnod o 3 blynedd, rhwng 2007-2010, a chafodd ei ddatblygu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru - "Cymru Gwlad Ddiogelach" a'r "Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru".

Y cam cyntaf o weithredu'r cynllun oedd cynhyrchu cynllun Gweithredu Drafft 2008/09 a thu hwnt, sy'n adroddi am yr hyn a gyflawnwyd gennym eisoes a'r hyn a fyddwn yn ei gyflawni yn 2008/2009. Yn dilyn ymgynghoriad, bydd y cynllun Gweithredu terfynol ar gyfer 2008/2009 yn cael ei adroddi mewn dogfen ar y cyd, a fydd hefyd yn ymgorffori gwybodaeth am berfformiad a gwelliant, a fydd yn diwallu gofynion 'Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella (WPI)'.

Fel rhan o'r broses Cynllunio i Leihau Risg, fe wnaeth yr Awdurdod gychwyn ar broses ymgynghori ar raddfa fawr, i ganfod barnau'r cyhoedd, budd-ddalwyr allweddol a'r staff ar y cynllun gweithredu drafft a'i gynigion allweddol. Dosbarthwyd dros 1,000 o gopïau o'r cynllun gweithredu drafft i fudd-ddalwyr allweddol adnabyddedig, a roedd ar gael yn eang ar safle gwe'r Gwasanaeth Tân ac Achub, mewn llyfrgelloedd, ym mhob gorsaf dân a phwyntiau cyflawni gwasanaeth eraill. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn unol â gofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru a gofynion Cynllunio i Leihau Risg a modeli arfer gorau.

O ystyried mor eang y dosbarthwyd y cynllun drafft a'i argaeledd, a'r nifer fawr o fudd-ddalwyr allweddol a ymgynghorwyd â nhw, yn cynnwys 1,400 o staff, roedd 131 o ymatebion yn siomedig o isel. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod yn ddiolchgar iawn i'r bobl hynny a rodd o'u hamser a'u hymdrech i gyflwyno eu barnau am y cynigion, a chafodd pob un o'r ymatebion eu hystyried wrth baratoi'r adroddiad.

Mae'r adroddiad hwn yn adolygu sylwadau a beirniadaethau'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad, gyda phwyslais penodol ar y ddau brif gynnig i leihau risg yng Nghwm Tawe Uchaf a Dyffryn Aman Uchaf, a newidiadau i'r System Dyletswydd. Dadansoddwyd yr ymatebion i'r cynigion yma, ac adroddwyd y pwyntiau a godwyd trwy grwpio prif themâu'r ymatebion gyda'i gilydd. Ceisia'r adroddiad hwn grynhoi'r ymatebion, yn gywir ac yn deg, a chryfder y teimlad am bob un o'r meysydd pryder, er mwyn adlewyrchu canlyniadau'r broses ymgynghori. Darperir ymateb y Gwasanaeth i'r pwyntiau lle mynegwyd pryder yn eu cylch. Cafodd yr holl sylwadau a ddaeth i law eu hystyried yn ofalus gan yr Aelodau, a bydd y ddogfen derfynol yn cael ei datblygu o ganlyniad i'r sylwadau a dderbyniwyd ar yr ymgynghoriad.

3. Strategaeth yr Ymgynghoriad a Methodoleg

Rhyddhawyd y Cynllun Gweithredu Lleihau Risg Drafft ar yr 22ain o Fai 2007, ac yn dilyn hynny cafwyd cyfnod o ddeuddeg wythnos o ymgynghori nes y 14eg o Awst 2007. Datblygwyd cynllun cyfathrebu cynhwysfawr, er mwyn cyrraedd cymaint o fudd-ddalwyr ag oedd yn bosib, ac roedd hyn yn rhan bwysig o'r prosiect yn gyffredinol, a oedd yn cynnwys tair prif elfen, sef:

- **Ymgynghoriad**

Lluniwyd cynllun yr ymgynghoriad yn unol â chanllawiau Cynllun Lleihau Risg Llywodraeth Cynulliad Cymru a chôd enghreifftiol swyddfa'r cabinet. Defnyddiwyd modelau arfer da Cymreig eraill.

- **Y Cyfryngau**

Defnyddiwyd strategaeth y cyfryngau i ddarparu dolen rhagweithiol i'r cyhoedd, a fyddai'n helpu i gyfarwyddo a chysuro'r cyhoedd am y cynigion sy'n gynwysedig yn y cynllun, ar adeg o newid sylweddol ac ansicrwydd.

- **Cyfnewid gwybodaeth**

Mae cyfnewid gwybodaeth yn cwmpasu cyfnewid gwybodaeth gyffredinol yn eang, a allai ddeillio tra'n datblygu'r Cynllun Lleihau Risg.

Defnyddiwyd dull ansoddol ar gyfer yr ymgynghoriad yn bennaf. Derbyniwyd mwyafrif yr wybodaeth a ddaeth i lawr trwy gyfrwng yr holiaduron, hefyd casglwyd ymatebion o sesiynau briffio mewn cyfarfodydd cyhoeddus a chan awdurdodau lleol, cynghorau cymuned, staff a gwleidyddion lleol. Lluniwyd y broses i gymell cyfnewid syniadau'n hollol agored, mewn modd syniadol yn hytrach nag ystadegol, a deongliadol yn hytrach na mathemategol. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ystyr barnau pobl yn hytrach na'u dosbarthiad ystadegol. Fodd bynnag, ystyriwyd nifer yr ymatebion a dderbyniwyd ar rai o'r materion dan sylw. Ni ellir ardystio'r darganfyddiadau a adroddir ar lefel o hyder penderfynedig eu bod yn cynrychioli holl bobl Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ystadegol, ond roedd y mecanweithiau a ddefnyddiwyd yn cynnwys trawsdoriad eang o bobl. Mae'r Awdurdod o'r farn fod y darganfyddiadau'n dynodi sbectrwm eang o farnau – fel canllaw i'r hynny a ellid ei alw'n ddadl ddeallus, yn seiliedig ar roi ystyriaeth i'r materion perthynol.

Defnyddiodd yr Awdurdod amrywiaeth o ddulliau i ymgynghori â'r budd-ddalwyr. Manylir isod yn eu cylch:

3.1 Yr Ymgynghoriad – Budd-ddalwyr Allanol

3.1.1 Ymgynghoriad uniongyrchol

Ystyriodd yr Awdurdod mai'r sefydliadau canlynol oedd ei fudd-ddalwyr allweddol ac allanol, a gofynnwyd iddynt am eu barnau manwl ar y cynigion a oedd yn gynwysedig yn y cynllun drafft, naill ai fel unigolion neu fel grŵp / Sefydliad cynrychiolaidd. Mae'r rhestr o fudd-ddalwyr yn gyson gyda Chanllawiau'r Cynulliad Cymreig.

- Awdurdodau Unedol Cyfansoddol a'u Prif Weithredwyr
- Cynghorau Tref a Chymuned
- Aelodau Seneddol ac Aelodau Cynulliad
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Sir Benfro
- Awdurdodau Tân sy'n ffinio
- Cyrff Cynrychiolaidd
- Heddlu y De a'r Gogledd a Dyfed Powys ac Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
- Gwylwyr y Glannau Ei Mawrhydi a grwpiau eraill
- Partneriaethau Diogelwch Cymunedol
- Mudiadau Gwirfoddol oddi fewn i ardal yr Awdurdod Tân
- Grwpiau ethnig lleiafrifol oddi fewn i ardal yr Awdurdod Tân
- Y Siambr Fasnach a mudiadau Masnachu yn cynrychioli ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Asiantaeth yr Amgylchedd
- Y cyhoedd
- Aelodau o staff

3.1.2 Safle Gwe

Mae gan yr Awdurdod adran Lleihau Risg ar ei safle gwe, a rhoddwyd y cynllun Gweithredu Lleihau Risg drafft ar y safle hwn yn bennaf, a roedd yn galluogi ymatebion i gael eu cyflwyno trwy gyfrwng electroing. Roedd gwybodaeth gefndir ar y broses a Chynlluniau Lleihau Risg blaenorol yn gynwysedig ar y safle hefyd, a oedd hefyd yn rhoi mynediad i ddatganiadau i'r wasg ar y cynllun.

3.1.3 Dosbarthu Cynllun Gweithredu Lleihau Risg Drafft 08/09

Ysgrifennodd yr Awdurdod at yr holl fudd-ddalwyr ar ddechrau mis Mai, i'w hysbysu y byddai Cynllun Gweithredu Lleihau Risg drafft 08/09 ar gael i'w ddarllen ar y safle gwe o'r 22ain o Fai, cyn i gopïau printiedig gael eu dosbarthu. Gwnaethpwyd hyn er mwyn rhoi cymaint o rybudd ag oedd yn bosib ac i osgoi byrhau cyfnod yr ymgynghoriad oherwydd rhaglenni cyfarfodydd Cyngor.

Diweddarwyd y gronfa ddata o fudd-ddalwyr allweddol, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ymgynghori, a dosbarthodd yr Awdurdod gopïau caled o'r ddogfen ddrafft i'r holl fudd-ddalwyr adnabyddedig. Roedd y ddogfen yn cynnwys holiadur ymateb i'r ymgynghoriad, i roi cyfle i'r budd-ddalwyr i gyflwyno eu sylwadau. Dosbarthwyd copïau o'r cynllun a'r ffurflen ymateb i brif lyfrgelloedd y Sir, a drefnodd i'r cynllun gael ei ddosbarthu i lyfrgelloedd llai a llyfrgelloedd symudol yn ardal yr Awdurdod, er mwyn rhoi mynediad eang i'r cyhoedd. Roedd y datganiad i'r wasg a oedd yn rhoi gwybodaeth am yr ymgynghoriad yn cynnwys gwybodaeth am ble a sut i gael mynediad i'r cynllun.

3.1.4 Awdurdodau Lleol

Ysgrifennodd yr Awdurdod at Arweinydd pob Cyngor, yn cynnig sesiwn friffio benodol yn ystod camau cynharaf yr ymgynghoriad, i sicrhau eu bod yn gwybod yn union yr hyn a gynigir. Anfonwyd y llythyr hwn i bob Prif Weithredwr perthynol, a rhoddwyd nifer o sesiynau briffio. Roedd yr Awdurdod yn hynod o falch gweld sesiynau briffio'n cael eu derbyn gan Gynghorau Sir Castell-nedd a Phort Talbot, Sir Gaerfyrddin a Phowys.

3.1.5 Aelodau Cynulliad / Aelodau Seneddol

Ysgrifennodd yr Awdurdod at bob Aelod Cynulliad ac Aelod Seneddol yn cynnig sesiwn friffio benodol ar y cynllun yn ystod y cyfnod o ymgynghori, i sicrhau eu bod yn gwybod yn union yr hyn a gynigir a chael cyfle i gael atebion i'w cwestiynau. Fe wnaeth y Pennaeth Rheoli Risg Weithredol drafod gyda swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yr union fecanwaith ar gyfer cynnal y fath sesiynau briffio. Cynhaliwyd y sesiwn briffio yn y Pencadlys Tân ac Achub yng Nghaerfyrddin, ar yr 20fed o Orffennaf 2007, mynychodd nifer o Aelodau Cynulliad ac Aelod Seneddol, yn cynrychioli'r etholaeth yn ardal yr Awdurdod. Hefyd, cynhaliwyd sesiynau briffio ar wahân i Aelodau Cynulliad nad oedd yn medru bod yn bresennol ac oedd yn dymuno ymdrin â materion penodol. Mae'r Awdurdod yn ddiolchgar iawn i'r Aelodau Cynulliad a'r Aelodau Seneddol a wnaeth fanteisio ar y cyfle o gael sesiynau briffio, a alluogodd yr Awdurdod i roi eglurder hollol i'r cynigion a'r rhesymwaith tu ôl i'r cynigion.

3.2 Yr Ymgynghoriad – Budd-ddalwyr Mewnol, Staff a Chyrff Cynrychiolaidd

Ar ddechrau'r 12 wythnos o ymgynghori, fe wnaeth y Gwasanaeth gynhyrchu memoranda'r Prif Swyddog Tân, yn ynwneud â'r broses Cynllunio i Leihau Risg, er lles y staff. Ymwelodd y Prif Swyddogion â'r gorsafoedd yn yr ardaloedd a effeithiwyd yn uniongyrchol gan y cynnig i newid y trefniadau criwio, er mwyn cael trafodaethau personol gyda'r criwiau a rhoi atborth ar eu sylwadau. Rhoddwyd copi o'r Cynllun Gweithredu Lleihau Risg drafft i bob gorsaf ac adran gefnogi. Atgoffwyd personél y gellid gweld y ddogfen yn electronig hefyd ar y rhwydwaith Gweinyddwr Gwybodaeth Fusnes mewnol. Rhoddwyd copi eu hunain o'r cynllun i'r holl benaethiaid adran gweithredol a heb lifrai. Rhoddwyd nifer o sesiynau briffio i staff mewn nifer o seminarau.

Ymgynghorwyd ynghylch y cynigion gyda'r holl gyrff cynrychiolaidd cydnabyddedig oddi fewn i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Derbyniwyd adroddiad hir a manwl oddi wrth Undeb y Brigadau Tân (FBU) a hefyd darparwyd llythyr, yn cynnwys eu sylwadau, gan Undeb y Diffoddwyr Tân Wrth Gefn (RFU). Cynhaliwyd trafodaethau trwy gyfrwng mecanweithiau Cyd Bwyllgor Ymgynghorol yr Awdurdod.

3.3 Strategaeth y Cyfryngau

Defnyddiwyd cymaint o'r cyfryngau ag oedd yn bosib, i sicrhau fod cymunedau'n cael eu diweddaru am gyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Lleihau Risg drafft, a'r cynigion allweddol a'r manteision o ran diogelwch yn y gymuned sy'n gysylltiedig â nhw. Hefyd, defnyddiwyd y cyfryngau i fanylu ynghylch y broses o ymgynghori a sut allai'r cyhoedd gyfrannu at baratoi'r cynllun terfynol.

- Cyhoeddodd yr Awdurdod ddatganiad i'r wasg i holl ffynonellau'r cyfryngau er mwyn lansio'r RRP drafft ar ddechrau'r cam ymgynghori. Rhoddwyd cyfweliadau i'r wasg, ar gais. Diweddarwyd safle gwe'r Gwasanaeth trwy gydol datblygiad y cynllun. Cyhoeddwyd datganiadau i'r wasg trwy gydol yr ymgynghoriad, mewn ymateb i ymholiadau ac erthyglau yn y cyfryngau, a dosbarthwyd cyfres o ddatganiadau i'r wasg â thema i'r cyfryngau trwy gydol y cam ymgynghori. Rhoddodd hyn grynodebau cryno o'r gwelliannau sy'n arfaethedig.

- Roedd Swyddog y Wasg a CC yn gyfrifol am fonitro'r cyfryngau trwy gydol y broses o ymgynghori, yn hysbysu aelodau a swyddogion am adroddiadau ac unrhyw faterion sy'n deillio ohonynt. Bydd datganiad i'r cyfryngau yn cael ei ryddhau i gyd-daro â chyhoeddiad y cynllun terfynol a chanlyniadau'r ymgynghoriad.

4.0 Trafodaeth gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru

Fel rhan o ganllawiau Cynllun Lleihau Risg Llywodraeth Cynulliad Cymru, mae'n ofynnol i'r Awdurdod i gwrdd â'r Gweinidog i drafod y cynllun. Roedd amseriad etholiadau'r Cynulliad a'r cyfnod cyn hynny yn cyd-daro â dyddiad disgwyliedig yr ymgynghoriad Gweinidogaethol, ac o ganlyniad bu'n rhaid gohirio'r cyfarfod gyda'r Gweinidog.

Yn dilyn etholiad y Cynulliad ar y 3ydd o Fai 2007, cafwyd oedi wrth benodi Cabinet a Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol. Ni fu'n bosib i'r Awdurdod ddilyn ei broses arferol a chwrdd â'r Gweinidog o fewn y graddfeydd amser arferol. Arweiniodd ad-drefniant pellach o Gabinet Llywodraeth Cynulliad Cymru at newid y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, a phenodwyd Dr Brian Gibbons i'r rôl. Cynhaliwyd cyfarfod rhwng Cadeirydd yr Awdurdod, Aelodau, y Prif Swyddog Tân, uwch swyddogion eraill a Dr Gibbons, ar ddechrau mis Medi i gynnal trafodaeth gyda'r Gweinidog a'i wneud yn ymwybodol o gynnydd yr ymgynghoriad. Ni wnaeth canlyniadau'r drafodaeth orfodi'r Awdurdod i ystyried unrhyw ddiwygiad sylfaenol i'r cynllun.

5.0 Proffil o Ymatebwyr

Er mwyn derbyn ymatebion i gynigion yr Awdurdod ar leihau risg, dosbarthwyd holiaduron gyda'r cynllun, a oedd yn galluogi'r ymatebwyr i roi eu sylwadau ar y ddau brif gynnig. Cofnodwyd sylwadau cyffredinol ar leihau risg yn ogystal. Hefyd, roedd y ffurflen ymateb ar gael ar safle gwe'r Awdurdod, i ganiatâu amrywiaeth mor eang â phosib o gyfleoedd i ymateb.

Roedd y ffurflen yn cynnwys adran ddewisol i gofnodi manylion am yr ymatebydd ac, os yn briodol, y sefydliad roeddent yn ei gynrychioli. Roedd hyn yn ein galluogi i ddadansoddi nifer a math yr ymatebwyr, a p'un ai eu bod yn cyflwyno sylwadau personol neu'n ymateb ar ran sefydliad. Isod, ceir crynodeb o broffil y 131 o ymatebwyr a sut y cyflwynwyd eu sylwadau.

Math o Ymatebydd	Nifer
Anhysbys	1
Awdurdod yr Heddlu	1
Awdurdod Iechyd	2
Aelod Seneddol	2
Canghennau o Bleidiau Gwleidyddol	2
Corff Cynrychiolaidd	2
Awdurdod Unedol	3
Diwydiant / Masnach	5
Aelod Etholedig o Awdurdod Lleol	9
Aelod Cynulliad	8
Aelod o'r Cyhoedd	16
Aelod Etholedig o Gynghorau Tref a Chymuned	38
Aelod o'r Gwasanaeth Tân	42
Cyfanswm	**131**



Sut dderbyniwyd yr ymateb	Nifer
Ffôn	0
e-bost	10
Safle gwe	19
Llythyr	26
Personol (cyfarfod)	28
Holiadur	48
Cyfanswm	**131**



- Cyflwynwyd deiseb gan Aelod Cynulliad lleol, gyda dros 5,000 o lofnodion yn gwrthwynebu'r cynnig i newid y trefniadau criwio yng Ngorsaf Dân Pontardawe, fel rhan o'r ymgynghoriad. Derbyniodd yr Awdurdod y ddeiseb fel rhan o'r ymgynghoriad.

- Yn ogystal, mae Aelodau'r Awdurdod Tân yn ymwybodol o ddeiseb ar lein a sefydlwyd ar safle gwe deisebau Rhif 10 Stryd Downing, a gefnogwyd gan dros 150 o lofnodion, ac fe wnaeth rhai ohonynt gyfrannu at yr ymgynghoriad ffurfiol. Ni fydd yr Awdurdod yn ystyried y ddeiseb gan ei bod yn datgan 'i atal Gorsaf Dân Pontardawe rhag cael ei diraddio neu ei **chau'**. Mae hyn yn gamarweiniol ac nid dyma'r hyn a gynigir yn y cynllun gweithredu drafft.

Cymhareb o ymatebion a dderbyniwyd

Er mwyn dangos y gymhareb o ymatebion a dderbyniwyd gennym oddi wrth ein budd-ddalwyr, o gymharu â'r nifer o ddogfennau a ddosbarthwyd gennym, mae'r tabl isod yn rhoi gwybodaeth am y prif grwpiau o ymatebwyr. Yn ogystal â chael eu hanfon yn uniongyrchol i'r budd-ddalwyr, cafodd y cynllun ei hysbysebu'n eang a roedd ar gael ar safle gwe'r Awdurdod. Felly, darperir yr wybodaeth yma fel amcan o argaeledd y cynllun yn unig.

Math o Ymatebydd	**Nifer o gynlluniau a ddosbarthwyd**	**Nifer o ymatebion a dderbyniwyd**
Aelod o'r Gwasanaeth Tân	Anfonwyd o leiaf 1 Cynllun i bob gorsaf ac adran dân. Nifer amcanol o staff 1400.	42
Cynghorau Tref a Chymuned	Dros 370	38
Aelod o'r Cyhoedd	Rhoddwyd copïau ym mhob llyfrgell Cafodd y Cynllun ei hysbysebu'n eang yn y wasg ac ar y safle gwe	16
Aelod Etholedig o Awdurdod Lleol	Arweinydd pob Cyngor	9
Aelod Cynulliad	21	8
Aelod Seneddol	12	2
Awdurdod Unedol	6	3
Corff Cynrychiolaidd	6	2

Ymatebion diweddar

Derbyniodd y Gwasanaeth nifer fach o ymatebion diweddar, daeth y rhain yn bennaf oddi wrth aelodau o staff, a bu'n bosib i'r Awdurdod i ystyried y sylwadau wrth gynhyrchu'r adroddiad hwn, er mwyn derbyn cymaint o ymatebwyr ag oedd yn bosib, i gaffael yr amrywiaeth ehangaf o farnau am y cynigion.

6.0 Sut aethpwyd ati i Ddadansoddi'r Ymatebion

Derbyniwyd mwyafrif yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar yr holiaduron a ddarparwyd gyda'r cynllun ac ar y safle gwe. Roedd yr holiadur yn darparu adran wag ar gyfer pob cynnig, er mwyn i'r ymatebwyr fedru cofnodi eu sylwadau. Cofnodwyd sylwadau cyffredinol am gynllunio i leihau risg yn ogystal.

Ni wnaeth rhai o'r ymatebwyr gwblhau'r holiadur ond fe wnaethant anfon e-bost, llythyr neu adroddiad yn cynnwys eu hymateb. Hefyd, cofnodwyd sylwadau mewn amrywiol gyfarfodydd a sesiynau briffio a fynychwyd, lle mynegwyd barnau a safbwyntiau ar y cynigion. Cofnodwyd yr holl ymatebion ar gronfa ddata, a sefydlwyd yn arbennig i'r diben hwn.

Cyhoeddwyd amrywiol erthyglau yn y wasg, yn enwedig ynghylch y cynnig ar gyfer Cwm Tawe Uchaf a Dyffryn Aman Uchaf, ac yn aml mae'r fath erthyglau'n cynnwys gwybodaeth anghyflawn neu gamarweiniol. Fe wnaeth yr Awdurdod ystyried y datganiadau a wnaed fel rhan o'r broses o ymgynghori yn gyffredinol, ac mae wedi manteisio ar y cyfle i gyflwyno rhai ffeithiau noeth, nid yn unig y materion cynyrfiadol sy'n ymwneud â'r cynigion allweddol, er mwyn i'r cyhoedd fedru dod i benderfyniad mwy deallus, yn hytrach na gorfod dibynnu ar sylwebaeth sy'n aml yn un ochrog, fel sy'n ymddangos yn y wasg yn aml. Wrth gwrs, fe ystyriwyd erthyglau'r cyfryngau ac fe'u defnyddiwyd i ganfod cryfder barnau lleol.

Dadansoddwyd yr ymatebion i'r cynigion yma, ac adroddwyd y pwyntiau a gafodd eu cyrbwyll trwy grwpio prif themâu'r ymatebion, i adlewyrchu'r maes penodol sy'n peri pryder. Er mwyn dangos faint o ymatebwyr wnaeth sylw am bob maes o bryder, dangoswyd y nifer a ymatebodd ar gyfer pob maes penodol o bryder.

Mae'r adroddiad hwn yn ceisio crynhoi'r ymatebion, yn gywir ac yn deg, a chryfder y teimlad ar gyfer pob maes o bryder, er mwyn adlewyrchu'n llawn yr ymateb i'r broses o ymgynghori. Dangosir ymateb y Gwasanaeth i bob maes o bryder er mwyn rhoi safbwynt gytbwys. Bydd y cynllun gweithredu lleihau risg terfynol yn cael ei ddatblygu o ganlyniad i'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad.

7.0 Canlyniadau'r Ymgynghoriad

Roedd y cynllun gweithredu drafft yn ymgynghori ynghylch dau brif gynnig a fwriadwyd ar gyfer 2008/09 a thu hwnt:-

7.1 Cynnig 1 – Opsiynau i Leihau Risg yn Ardaloedd Cwm Tawe Uchaf a Dyffryn Aman

Yn 2006, fe wnaeth yr Awdurdod asesu ei gynnig i gyflwyno criw dydd yng Ngorsaf Dân Pontardawe yn erbyn canllawiau RRP Llywodraeth Cynulliad Cymru a'u Safonau Gwasanaeth ar gyfer tanau yn y cartref. Roedd hyn yn golygu modelu risg helaeth, yn enwedig yn ardaloedd Cwm Tawe a Dyffryn Aman. Adroddwyd yng Nghynllun Lleihau Risg 2007-2010 fod yna ddulliau eraill o leihau risg yn yr ardal hon, a buasai dadansoddiad yn cael ei gynnal yn 2007, ac y byddai Gorsaf Dân Pontardawe yn aros yn orsaf criw llawn amser yn 2007/2008.

Ymgymerwyd â'r adolygiad o risg yn yr ardal dan sylw gan ddefnyddio gwybodaeth am anheddau risg uchel, a ddarparwyd gan y Model Gwarchodaeth Dân Gwasanaethau Tân (FSEC), dadansoddiad o weithgarwch digwyddiad a phroffil risg o'r ardal. Y model FSEC yw adnodd dadansoddi risg ffafredig Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ystyriwyd nifer o opsiynau i leihau risg a darparu'r defnydd gorau o adnoddau, a'r opsiwn oedd yn darparu'r cydbwysedd gorau rhwng cost a manteision ac ymgynghorwyd ynghylch yr hyn a fyddai'n galluogi'r Awdurdod i leihau risg ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru yn y Cynllun Gweithredu Drafft.

Cynigwyd:-

- Newid y trefniadau criwio ym Mhontardawe i griw dydd
- Darparu gorsaf dân wrth gefn newydd yng Nghwm Tawe Uchaf / Dyffryn Aman, i wella ein amserau ymateb a chwrdd â'r Safonau Gwasanaeth ar gyfer tanau yn y cartref
- Adleoli'r ail beiriant tân o orsaf dân Rhydaman i'r orsaf newydd sy'n arfaethedig, yr union leoliad eto i'w benderfynu

7.1.1 Cefnogaeth i'r Cynnig

Yn ôl y disgwyl, fe wnaeth y cynnig hwn ddenu cryn dipyn o ymateb, yn enwedig oddi wrth aelodau o staff ac aelodau etholedig yn y cymunedau a effeithir. Cafwyd rhai ymatebion a oedd yn cefnogi'r cynigion, a daeth llawer o'r rhain oddi wrth y cymunedau tu allan i'r ardal, a oedd, yn cefnogi ymdrechion yr Awdurdod i leihau risg, yn gyffredinol.

Fe wnaeth rhai o'r ymatebwyr wrthod ymateb i'r cynnig hwn oherwydd eu bod yn teimlo nad oedd y newidiadau'n effeithio arynt yn uniongyrchol. Roedd yna ddiffyg ymateb nodadwy oddi wrth gymunedau Dyffryn Aman Uchaf, lle bwriadwyd agor yr orsaf newydd. Derbyniwyd sylwadau cadarnhaol oddi wrth Undeb y Diffoddwyr Tân Wrth Gefn ar ddarparu gorsaf wrth gefn newydd fel modd o gefnogi'r gymuned a'r manteision a fyddai ynghlwm â'r peth.

Dangosir y meysydd o gefnogaeth i'r cynnig, neu agweddau o'r cynnig isod. Mae'r adran hon yn cynnwys awgrym yn ymwneud â rhannu'r safle yng Ngorsaf Dân Pontardawe.

Meysydd a gefnogwyd gan yr ymatebwyr	Math o Ymatebydd	Ymateb
'Mae'r newidiadau wedi eu hystyried yn dda a'u cadarnhau yn glir'	Cyngor Tref a Chymuned	2
Cefnogi'r defnydd mwyaf effeithiol o bobl ac arian y gwasanaeth tân, a darparu cyflenwad tân ac argyfwng mewn cymunedau risg uchel ac amddifadus oherwydd bydd hyn yn lleihau'r risg.	Cangen o Blaid Wleidyddol Cyngor Tref a Chymuned Aelod o'r Gwasanaeth Tân	6
Mae lefel gweithgarwch Pontardawe yn is na rhai o'r gorsafoedd criw dydd	Cyngor Tref a Chymuned	1
'Mae rhannu cyfleuster cymunedol gyda'r Heddlu/Gwasanaeth Ambiwlans yn Nyffryn Aman Uchaf yn gwneud synnwyr a gallai arwain at fwy o gydweithredu gwerthfawr rhwng y gwasanaethau'	Cyngor Tref a Chymuned	1
Dylid gwaredu'r ail beiriant yn Rhydaman ta beth oherwydd y gyfradd isel o alwadau	Aelod o'r Cyhoedd	1
'Ni fydd yn hawdd sefydlu gorsaf newydd. Fodd bynnag, os cyflawnir hyn mewn modd cydymdeimladol a'i fod yn ymgorffori diffoddwyr tân ifanc a chynllun Cydymatebydd yna bydd yn gyfle da i wella diogelwch ac ansawdd bywyd yn y cymunedau yma yn sylweddol.'	Corff cynrychiolaidd	1
Cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig am orsaf newydd ond nid am y newydiadau eraill	Cyngor Tref a Chymuned Awdurdod Unedol - Powys	4
Awgrym	**Math o Ymatebydd**	**Ymateb**
Cyfuno Gorsaf Dân Pontardawe gyda Gorsaf Ambiwlans Pontardawe	Aelodau Cynulliad Aelodau o'r Gwasanaeth Tân Corff cynrychiolaidd Cyngor Tref a Chymuned	8

7.1.2 Gwrthwynebiad i'r Cynnig

Amlinellwyd rhesymau'r Awdurdod dros ymgynghori ynghylch y cynnig hwn yn glir yn y cynllun gweithredu drafft. Hefyd, ymdrechwyd i roi darlun clir i'r budd-ddalwyr o fanylion a manteision y cynnig trwy gyfrwng datganiadau i'r wasg, cyfarfodydd cyhoeddus a sesiynau briffio i Aelodau Cynulliad, Awdurdodau Unedol, Cynghorau Tref a Chymuned a chriwiau'r orsaf dân dan sylw.

Er gwaethaf yr ymdrechion yma i roi diwedd ar rai o'r negeseuon a'r ffeithiau camarweiniol a ddosbarthwyd, roedd yna wrthwynebiad llafar, unedig ac unfrydol bron i'r cynnig. Derbyniwyd rhai ymatebion hir a manwl, yn amlinellu pryderon ac yn herio'r wybodaeth sy'n gynwysedig yn y cynllun. Daeth yr ymatebion yma oddi wrth aelodau o staff, y cyhoedd, Aelodau Cynulliad, Undeb y Brigadau Tân, ac aelodau etholedig o'r ardaloedd a effeithir.

Cyflwynodd mwyafrif yr ymatebwyr eu sylwadau trwy gwblhau'r holiadur a ddarparwyd, a hefyd cofnodwyd ymatebion yn ystod y cyfarfodydd a'r sesiynau briffio a gynhaliwyd. Derbyniwyd y prif ymatebion o wrthwynebiad i'r cynnig oddi wrth:-

- Aelodau Seneddol ac Aelodau Cynulliad
- Cyngor Castell-nedd a Phort Talbot ac Aelodau unigol o'r Awdurdod Lleol
- Cynghorau Tref a Chymuned
- Aelodau o'r cyhoedd
- Undeb y Brigadau Tân
- Aelodau o staff

Cyngor Sir Castell-nedd a Phort Talbot, Aelodau Cynulliad a Mudiadau Cymunedol

Mynychodd rai uwch swyddogion gyfarfod yng Nghyngor Castell-nedd a Phort Talbot, a rhoddwyd sesiwn friffio i'r aelodau a chyfle i leisio eu pryderon a chael atebion i'w cwestiynau. Fe wnaeth y Cyngor, yn ei ymateb ffurfiol, ddatgan eu bod yn edmygus o'n cyflawniadau o safbwynt diogelwch yn y gymuned ond eu bod yn gwrthwynebu'n gryf y cynnig i newid y trefniadau criwio ym Mhontardawe. Hefyd, fe wnaeth aelodau awdurdod lleol Gwaun Cae Gurwen a Brynaman Isaf ymateb ar wahân, gan leisio eu gwrthwynebiad cryf i'r cynnig.

Ni ddangoswyd unrhyw gefnogaeth i'r cynnig gan Aelodau Cynulliad nag Aelodau Seneddol, a rhoddodd Aelodau Cynulliad lleol ymateb hir yn gwrthwynebu'r newidiadau. Roedd y Gymdeithas sy'n cynrychioli Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru a'r cydlynydd 'Cymunedau'n Gyntaf' yn Nyffryn Aman Uchaf yn gwrthwynebu'r cynnig.

Deisebau

Hefyd, fe wnaeth yr Aelod Cynulliad lleol gyflwyno deiseb ac arni 5,000 o lofnodion, a arwyddwyd gan drigolion lleol yn gwrthwynebu'r cynnig. Mae'r Awdurdod yn ymwybodol hefyd o ddeiseb a sefydlwyd ar safle gwe 10 Stryd Downing, ond ni fydd yn ei hystyried. Mae'r ddeiseb hon yn cynnwys y datganiad *'i atal Gorsaf Dân Pontardawe rhag cael ei diraddio neu ei **chau'**.* Mae hyn yn gamarweiniol ac nid dyma a gynigwyd yn y cynllun gweithredu drafft.

Aelodau o staff, y cyhoedd a Chyrff Cynrychiolaidd

Fe wnaeth aelodau o staff o'r gorsafoedd a effeithir a'r rhai cyfagos ddarparu ymatebion, llawer ohonynt yn rhai manwl, yn amlinellu eu gwrthwynebiad a roedd ymateb cyffredinol y cyhoedd yn gwrthod y cynnig. Darparodd Undeb y Brigadau Tân adroddiad hir a manwl yn amlinellu eu gwrthwynebiad cryf i bob agwedd o'r cynnig.

Roedd y meysydd o bryder allweddol parthed â'r cynnig yn y meysydd canlynol

- Risg
- Defnydd o ystadegau a chanlyniadau FSEC
- Darparu a chynnal criwiau wrth gefn
- Eglurder y cynnig
- Achos busnes a danfonadwyedd y cynnig
- Ystyriaethau Ariannol
-

7.1.3 Risg

Roedd yr ymatebwyr yn dadlau y buasai'r cynnig yn cynyddu'r risg ym Mhontardawe a'r cyffiniau, a oedd yn groes i'r hyn yr oedd y cynllun drafft yn ei gynnig. Eu pryder pennaf oedd yr amser ymateb ychwanegol i beiriant Pontardawe pan fyddai'n cael ei griwio gan ddiffoddwyr tân yn cyflenwi o'u cartrefi. Ystyriwyd hyn gan yr Awdurdod, a chan fod y lefel o weithgarwch yn debyg i orsafoedd eraill gyda phroffil tebyg, teimlwyd bod hyn yn briodol. Dyfynnwyd amserau ymateb wrth gefn tra chwyddedig mewn ymatebion. Dadansoddwyd yr amserau ymateb gwirioneddol ar gyfer digwyddiadau a fynychwyd gan y gorsafoedd criw dydd presennol cyn yr ymgynghoriad, a defnyddiwyd nhw i ddarogan ymateb ychwanegol i'r peiriant hwn. Cafodd yr ymateb ychwanegol cyfartalog ei ddarogan yn 4 munud yn llai ond, gan mai ffigwr amcanol ydoedd, roedd yr ymatebwyr yn medru cyfeirio at ddigwyddiadau lle'r oedd yr ymateb wrth gefn yn uwch, roedd y datganiadau yma'n gamarweiniol ond cawsant eu dyfynnu'n eang a'u derbyn a'u defnyddio fel sylfaen ar gyfer ymatebion o bob lefel.

Pryderon yr Ymatebwyr am Risg	Ymateb yr Awdurdod Tân ac Achub	Ymateb
Bydd newid y trefniadau criwio ym Mhontardawe yn cynyddu'r amser ymateb pan fydd criw wrth gefn ar ddyletswydd. Bydd hyn yn gostwng y gwasanaeth i drigolion Pontardawe ac yn cynyddu'r risg ym Mhontardawe. Mae Pontardawe yn leoliad strategol, ac mae hefyd yn cefnogi ardaloedd cyfagos. Heriwyd yr amser ymateb ychwanegol cyfartalog a ddyfynnwyd gan yr Awdurdod. Roedd yr ymatebwyr o'r farn bydd yr amser ymateb yn fwy, gydag amrywiol amserau ymateb yn cael eu dyfynnu hyd at 10-14 munud.	Bydd yr amser ymateb yn cynyddu yn ystod y cyfnod pan fod criw wrth gefn ar ddyletswydd. Rydym yn darogan y buasai'r amser ymateb ychwanegol cyfartalog yn llai na 4 munud. Cyfrifwyd hyd trwy archwilio'r amserau ymateb mewn gorsafoedd criw dydd eraill sydd â phoffiliau risg a gweithgarwch tebyg i Bontardawe ac sy'n gweithredu'n effeithiol. Dilyswyd y data'n annibynnol. Bydd yr amser ymateb estynedig yn gymwys yn ystod y cyfnodau pan fod gweithgarwch ar ei isaf. Bydd yr orsaf yn dal i gynnal ei allu i gefnogi'r ardaloedd cyfagos.	70
O bell ffordd, dyma oedd pryder mwyaf yr ymatebwyr, gyda dros hanner yr holl ymatebwyr yn crybwyll y pryder hwn. Daeth mwyafrif yr ymatebion oddi wrth aelodau o'r gwasanaeth ond roedd yn cynnwys Aelodau Cynulliad, aelodau o'r cyhoedd, Cynghorau Tref a Chymuned, aelodau etholedig, Cyngor Castell-nedd a Phort Talbot a busnesau lleol hefyd		

Mae nifer fawr o anheddau'n cael eu hadeiladu yn yr ardal. Bydd yr anheddau yma'n cynyddu'r risg ac felly'r angen am griw llawn amser 24 y dydd	Mae tai newydd yn golygu llai o risg gan eu bod yn cael eu hadeiladu i gydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu sy'n cydymffurfio â'r argymhellion Diogelwch Tân diweddaraf, megis larymau mwg gwifrau caled a bydd hyn wedi cael ei ystyried. Bydd yr orsaf yn parhau i gynnal ei allu i fynychu digwyddiadau pan eu bod yn amlygu. Caiff risg ei ddadansoddi'n ddeinamig trwy gyfrwng FSEC a'r broses cynllunio i leihau risg.	7
Cafodd hyn ei grybwyll gan aelodau o staff, corff cynrychiolaidd, aelod o Gyngor Tref a Chymuned a busnes lleol.		

Gallai'r cynnydd mewn amser ymateb gyda'r nos effeithio ar safleoedd risg uchel yn ardal Pontardawe.	Mae digwyddiadau mewn safleoedd risg uchel yn derbyn presenoldeb uwch o orsafoedd gerllaw ac ni fydd ymateb uwch yn bwysig. Mae cynlluniau arbenigol mewn lle ar gyfer risgiau o'r fath	2
Cafodd hyn ei grybwyll gan aelod o'r cyhoedd ac Aelod o Gyngor Tref a Chymuned.		

Gallai'r cyfuniad presennol o drefniadau criwio llawn amser ac wrth gefn yn Nhreforys effeithio ar eu hargaeledd i gyflenwi ym Mhontardawe.	Mae'r trefniadau criwio yn Nhreforys yn briodol ar gyfer y lefel o weithgarwch a'r risgiau oddi fewn i ardal yr orsaf a'i gefnogaeth i orsafoedd eraill.	3
Cafodd hyn ei grybwyll gan Aelodau Cynulliad, staff ac aelod o Gyngor Tref a Chymuned.		

Ni fydd yr orsaf newydd sy'n arfaethedig yn Nyffryn Aman Uchaf yn gwella amserau ymateb yng Nghwm Tawe Uchaf. Mae Dyffryn Aman Uchaf a Chwm Tawe Uchaf yn ardaloedd gwahanol ac nid yw'n bosib i un gorsaf wasanaethu'r ddwy ardal.	Ystyriwyd darparu dwy orsaf dân newydd, un yn Nyffryn Aman Uchaf a'r llall yng Nghwm tawe Uchaf. Nid oedd yn ymarferol sefydlu dwy orsaf fel rhan o un cynnig. Felly, cynigwyd agor yr orsaf yn yr ardal sydd â'r risg uchaf, er mwyn gwella'r ymateb i ddigwyddiadau.	5
Cafodd hyn ei grybwyll gan aelodau o staff, aelod etholedig o awdurdod lleol a chorff Cynrychiolaidd		

Bydd gwaredu'r ail beiriant o Rydaman yn cynyddu'r risg yn ardal Rhydaman. Does dim achos dros waredu'r ail beiriant o Rydaman. Bydd yr anheddau newydd a adeiledir yn yr ardal yn cynyddu'r risg. Bydd y cynnig yn effeithio ar griwiau wrth gefn a pheiriannau arbenigol a leolir yn yr orsaf.	Ar hyn o bryd, mae'r ail beiriant yn Rhydaman yn mynychu llai na 70 o ddigwyddiadau'r flwyddyn, ar gyfartaledd, a chaiff yr ardal ei chefnogi'n dda gan beiriannau o orsafoedd cyfagos. Nid yw'r peiriant yn cael ei waredu, yn hytrach bydd yn cael ei adleoli i ardal arall yn Nyffryn Aman. Mae tai newydd yn golygu llai o risg gan eu bod yn cael eu hadeiladu i gydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu sy'n cydymffurfio â'r argymhellion Diogelwch Tân diweddaraf, a bydd hyn wedi cael ei ystyried. Nid oes gostyngiad yn y gallu wrth gefn yn arfaethedig ar hyn o bryd. Rydym wedi ystyried hyfforddi a chriwio'r peiriannau arbenigol.	17
Cafodd hyn ei grybwyll gan Aelodau Cynulliad, Cyngor Tref a Chymuned ac aelodau awdurdod lleol, corff cynrychiolaidd a'r Awdurdod Iechyd		

7.1.4 Y Defnydd o Ystadegau a Chanlyniadau'r FSEC

Daroganau'r FSEC

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi argymell y defnydd o'r model FSEC, i ddarparu gwybodaeth er mwyn cyflawni'r Safonau Gwasanaeth ar gyfer tanau yn y cartref. Datblygwyd y model FSEC yn dilyn dilysiadau prawf Pathfinder helaeth. Mae'r model yn defnyddio gwybodaeth y cyfrifiad i roi gwybodaeth am risg, a chaiff y risg yma'i fapio ar gyfer pob ardal o dir, a elwir yn 'ardaloedd allbwn'. Mae pob ardal allbwn yn cynnwys oddeutu 125 o anheddau neu 300 o bobl, ac felly pa fwyaf gwledig yw ardal, y mwyaf yw'r ardal allbwn. Ymchwiliwyd i'r rhwydwaith ffyrdd, a chyfrifwyd y gosodiadau diofyn gan ddefnyddio cyflymderau ar y ffordd cyfartalog.

Dangosodd modelu FSEC fod yna ardaloedd risg uchel yn Nyffryn Aman Uchaf a Chwm Tawe Uchaf, a ddisgwyliwyd i fod mwy na 10 munud o orsaf. Pan ystyriwyd y Safonau Gwasanaeth ar gyfer tanau yn y cartref, pwysleisiwyd y dylid ymdrin â'r risg yn yr ardaloedd yma. Mae'r 10 munud a gyfrifwyd yn cynnwys yr amser a gymerir i beiriant adael yr orsaf, or adeg pan gaiff ei rybuddio yn ogystal â'r amser teithio i'r digwyddiad, ffactor efallai na gafodd ei ystyried yn llwyr gan rai ymatebwyr. Yr ardal gyda'r nifer fwyaf o'r anheddau yma oedd Dyffryn Aman Uchaf.

Dengys ein data digwyddiad fod yna rai ardaloedd yma lle bydd criwiau'n cyrraedd o fewn y safon, ond ar achlysuron eraill gallant gymryd yn hirach. Mae yna lawer o leoliadau na fydd yn cael eu cyrraedd o fewn y safon, a mwy sy'n achosion ar y ffin. Roedd y cynnig yn bwriadu darparu gorsaf yn yr ardal i sicrhau, yn hytrach na gorfod disgwyl am ymateb o Bontardawe neu Rydaman, y byddai yna bresenoldeb lleol, a fyddai'n lleihau'r amser a gymerir i fynychu digwyddiad yn yr ardal, a adnabuwyd i fod uwchlaw'r risg cyfartalog.

Fe wnaeth aelodau o staff, yn enwedig, herio'r adroddiadau bod yr ardaloedd yma yn y cynllun tu hwnt i 10 munud o orsaf, a dyfynnwyd yn helaeth y digwyddiadau pan wnaethant gyrraedd o fewn yr ardal mewn llai ma 10 munud. Roeddent yn dadlau nad oes angen darparu gorsaf yn yr ardal hon cyn belled ag y bod Pontardawe yn aros yn griw llawn amser. Unwaith eto, cafodd y datganiadau yma eu dyfynnu'n helaeth a'u derbyn a'u hadroddi gan lawer o ymatebwyr a oedd yn ffocysu'n bennaf ar amser ymateb. Byddai darparu gorsaf newydd yn yr ardal hon yn gwella amserau ymateb yn ddramatig.

Pryderon yr Ymatebwyr am Risg	Ymateb yr Awdurdod Tân ac Achub	Ymateb
Cafodd yr wybodaeth a ddarparwyd gan FSEC parthed ag ardaloedd 10 munud oddi wrth orsafei herio. Fe wnaeth yr ymatebwyr ddatgan y gallai'r peiriant presennol gyrraedd ardaloedd yn Nyffryn Aman Uchaf neu/a Chwm Tawe Uchaf o fewn 10 munud.	Mae'r amser mynychu o ddeng munud yn cynnwys yr amser a gymerir i'r criwiau droi allan o'r orsaf yn ogystal ag amser teithio'r peiriant. Mae yna ardaloedd yn Nyffryn Aman Uchaf a ellid eu cyrraedd o Bontardawe neu Rydaman o fewn (ond yn agos i) 10 munud. Fodd bynnag, mae yna ardaloedd na ellir eu cyrraedd o fewn 10 munud. Buasai darparu gorsaf yn yr ardal hon yn datrys hyn, mewn cydweithrediad â chynlluniau diogelwch yn y gymuned ar gyfer ardaloedd eraill. Mae asesiad annibynnol o'r model FSEC yn cael ei gynnal ar hyn o bryd.	24
Cafwyd yr ymateb hwn gan lawer o'r ymatebwyr, staff yn bennaf, Aelodau Cynulliad a mwyafrif y mathau eraill o ymatebwyr		

A fydd darparu gorsaf newydd yn diwallu Safonau Gwasanaeth LICC?	Bydd darparu'r orsaf newydd yn gwella amserau mynychu yn yr ardal risg uchel yn Nyffryn Aman Uchaf. Hefyd, bydd ardaloedd risg uchel yn Nyffryn Aman Uchaf a Chwm Tawe Uchaf yn cael eu targedu ar gyfer cynlluniau diogelwch yn y gymuned.	3
Cafodd hyn ei grybwyll gan Aelodau Cynulliad		

Lefel gweithgarwch peiriant Pontardawe

Heriwyd y defnydd o ystadegau o fewn y cynllun a'r cynnig i newid y trefniadau criwio ym Mhontardawe, yn gadarn gan rai ymatebwyr. Ni dderbyniwyd yr heriadau yma a wnaed am y defnydd o ddata gweithgarwch. Dangoswyd y nifer cyfartalog o ddigwyddiadau lle mynychodd peiriannau yn eu hardal ac yn ardaloedd gorsafoedd eraill, yn y cynllun, ar gyfer yr holl beiriannau a restrwyd. Ysytyriwyd hyn yn briodol oherwydd ei fod yn adlewyrchu'r risgiau a fynychwyd gan y peiriannau. Ystyriwyd achosion lle'r anfonwyd peiriannau i gyflenwi wrth law ar gyfer gorsafoedd eraill ond ni chafodd hyn ei gynnwys yn y cynllun oherwydd y gall y ddarpariaeth yma gael ei ddarparu trwy gyfrwng arall ac mae'n amodol i adolygiad. Defnyddiwyd yr un meini prawf ar gyfer yr holl beiriannau a adroddwyd amdanynt.

Roedd yr wybodaeth a ddyfynnwyd ac a ddosbarthwyd gan staff yn dair mlwydd oedd, ac nid oedd yn cymharu gyda gweithgarwch peiriannau gorsafoedd eraill o gwbl. Hefyd roedd yr wybodaeth ar gyfer meini prawf gwahanol yn ffocysu ar bob tro yr oedd y peiriant yn mynychu o'r orsaf a mynychu wrth law, ac nid pan oedd y peiriant yn mynychu digwyddiad go iawn, felly nid oedd yn bosib cymharu tebyg at ei debyg.

Petai ffigyrau mobileiddio ar gyfer pob peiriant o dan ystyriaeth buasai, wrth gwrs, wedi dangos yr un ffigyrau uchel. Nid oedd y data yma'n adlewyrchu'r gwelliannau i'r strategaeth presenoldeb a'r gostyngiad cyffredinol ym mhresenoldeb peiriannau, yn deillio o'n strategaethau atal, a gyflawnwyd dros y tair blynedd diwethaf.

Er bod yr wybodaeth yma'n gamarweiniol cafodd ei dderbyn gan lawer a'i ddosbarthu'n eang a'i adroddi gan lawer o'r ymatebwyr, yn cynnwys Aelodau Cynulliad ac aelodau etholedig. Yn wir, roedd rhai ymatebwyr yn credu bod y ffigyrau yn y cynllun wedi cael eu darparu i'w camarwain yn fwriadol parthed â lefelau gweithgarwch.

Pryderon yr Ymatebwyr am Risg	Ymateb yr Awdurdod Tân ac Achub	Ymateb
Cafodd yr ystadegau a gyhoeddwyd yn y cynllun eu herio. Fe wnaeth yr ymatebwyr herio'r ffordd y dehonglwyd ac y defnyddiwyd yr ystadegau ac fe wnaethant ddosbarthu eu cymariaethau eu hunain.	Roedd y data a gyhoeddwyd yn y cynllun yn ymwneud â'r digwyddiadau a fynychwyd gan y peiriannau dan sylw. Roedd hyn yn briodol gan ei fod yn dangos gweithgarwch y peiriant hwnnw. Ffigyrau ar gyfer meini prawf arall a ddosbarthwyd gan bersonél Gorsaf, a roeddent yn dair blwydd oed. Ni chafodd galwadau, lle galwyd criwiau i fod wrth law mewn gorsafoedd eraill, eu hystyried oherwydd y gellir darparu trefniadau i fod wrth law mewn modd arall ac maent yn amodol i adolygiad ar hyn o bryd. Buasai proffil yr orsaf a'r cynnydd mewn gweithgarwch yn gynnar yn y nos yn cael ei ystyried fel rhan o'r cynllun gweithredu, os caiff y cynnig ei gymeradwyo.	15
Cafodd yr ystadegau eu herio gan nifer o'r ymatebwyr, staff yn bennaf, corff cynrychiolaidd, aelodau etholedig a'r cyhoedd.		

7.1.5 Darparu a chynnal criwiau wrth gefn

Buasai'r cynnig yn arwain at sefydlu criw wrth gefn ym Mhontardawe a, gan y byddai gorsaf newydd yn cael ei hadeiladu yn Nyffryn Aman Uchaf, tîm diffodd tân wrth gefn cwbl newydd. Cyflwynodd yr ymatebwyr sylwadau am ein pryderon yn y meysydd yma.

Pryderon yr Ymatebwyr am Risg	Ymateb yr Awdurdod Tân ac Achub	Ymateb
Mae yna broblemau wrth recriwtio, cadw, hyfforddi a lefelau sgiliau'r personél Wrth Gefn	Caiff recriwtio a chadw personél Wrth Gefn ei gydnabod fel mater cenedlaethol. Mae criwiau wrth gefn yn weithlu medrus sy'n darparu ymateb effeithiol mewn gorsafoedd sy'n cwmpasu mwyafrif ein hardal. Nid yw'r Gwasanaeth yn rhagweld problemau wrth recriwtio staff yn yr ardal. Mae'r adolygiad i ddarpariaeth cyflenwad wrth gefn yn parhau.	15
Cafodd ei grybwyll gan aelodau o staff, Aelodau Cynulliad, corff cynrychiolaidd ac aelodau etholedig.		

Weithiau nid yw peiriannau wrth gefn ar gael oherwydd diffyg argaeledd criw wrth gefn.	Mae trefniadau'n bodoli eisoes i fonitro argaeledd criwiau wrth gefn. Anfonir peiriannau ychwanegol os derbynnir galwad yn ystod yr amserau yma. Mae problemau'n amlygu fel arfer yn ystod y dydd ac nid oes unrhyw newidiadau'n arfaethedig yn ystod yr amser hwn. Nid yw'r Awdurdod yn rhagweld unrhyw broblemau. Mae'r adolygiad i ddarpariaeth cyflenwad wrth gefn yn parhau.	13
Cafodd ei grybwyll gan aelodau o staff, corff cynrychiolaidd a'r cyhoedd.		

7.1.6 Eglurder y cynnig

Fe wnaeth nifer fach o ymatebwyr sylwadau a oedd yn beirniadu'r ffordd y cafodd y cynnig ei gyflwyno a roeddent yn herio dealltwriaeth yr Awdurdod o'r ardal dan sylw. Cydnabuwyd efallai nad yr enwau a ddefnyddiwyd yw'r ffordd y cyfeirir yn lleol at yr ardal. Fodd bynnag, doedd dim dryswch ynglŷn â ble mae'r ardaloedd risg uchel a beth oedd yr Awdurdod yn bwriadu'i gyflawni. Bydd y cynllun terfynol yn dwyn i ystyriaeth y sylwadau a ddarparwyd ar enwau'r ardal.

Oherwydd y cynhaliwyd rhai sesiynau briffio cyn i'r cynllun drafft gael ei gyhoeddi, roedd staff yn ymwybodol fod opsiynau eraill wedi cael eu dadlau, a roeddent yn pryderu nad oeddent wedi cael eu darparu er mwyn i weithgor yr Aelodau i'w hystyried. Fe wnaeth gweithgor yr Aelodau ystyried nifer fawr o opsiynau i leihau risg yn yr ardal, ond fe wnaethant ddewis i ymgynghori'n unig ynghylch yr opsiwn a fyddai, yn eu tyb nhw, fwyaf o fantais o safbwynt lleihau risg a'r defnydd gorau o adnoddau.

Pryderon yr Ymatebwyr am Risg	Ymateb yr Awdurdod Tân ac Achub	Ymateb
Mae cyfeiriadau yn y cynllun yn awgrymu fod yna ddryswch rhwng Dyffryn Aman Uchaf a Chwm Tawe Uchaf.	Efallai bod rhai cyfeiriadau at enwau'r ardaloedd yn y ddogfen yn aneglur, ond mae lleoliad y risg yn y cynllun yn gywir. Bydd unrhyw gyfeiriadau yn y cynllun terfynol yn berthnasol i'r ardal.	5
Cafodd ei grybwyll gan staff ac aelod o gyngor Tref a Chymuned		

Ni chafodd yr opsiynau a ddadlewyd cyn yr ymgynghoriad eu cyflwyno i'r Cynghorwyr. Felly, ni roddwyd yr un ystyriaeth i bob opsiwn	Fe wnaeth gweithgor yr Aelodau ystyried yr opsiynau oedd ar gael. Dewiswyd yr opsiwn a ymgynghorwyd yn ei gylch yn dilyn ystyriaeth fanwl.	3
Cafodd ei grybwyll gan staff, corff cynrychiolaidd ac aelod etholedig		

Ni ystyriwyd awgrymiadau'r Staff ar gyfer Opsiynau	Cafodd y cynigion a wnaed gan griwiau o Bontradawe eu mapio ar yr FSEC a darganfuwyd nad oeddent yn darparu'r opsiwn gorau i leihau risg.	2
Cafodd ei grybwyll gan gorff cynrychiolaidd		

Dengys gwybodaeth oddi wrth y model FSEC gynnydd yn y risg i fywyd ar gyfer yr holl opsiynau a ystyriwyd, sy'n groes i'r datganiad yn y cynllun	Rhan yn unig yw'r wybodaeth a ddarparwyd trwy'r FSEC o'r fethodoleg ar gyfer monitro risg. Mae'r effaith mae cynlluniau diogelwch yn y gymuned yn ei gael yn effeithio ar risg ac mae hyn, yn ogystal â beirniadaeth broffesiynol, yn ffactor bwysig o gyfarwyddo'r strategaeth.	5
Cafodd ei grybwyll gan staff ac aelod o'r cyhoedd		

7.1.7 Achos busnes a danfonadwyedd y cynnig

Er mwyn rhoi costau arwyddol ar gyfer yr opsiynau a ystyriwyd, gwnaethpwyd llawer o waith i ddarogan y costau ychwanegol o recriwtio, hyfforddi a chefnogi criwiau wrth gefn, ac i amcangyfrif y nifer o ddigwyddiadau y byddai disgwyl i'r orsaf newydd i'w mynychu. Amcangyfrifwyd yr wybodaeth ar argaeledd a chaffael tir i sefydlu gorsaf dân Gymunedol, a chafodd ei gynnwys wrth gyfrif y costau arwyddol. Teimlwyd y buasai ceisio a chaffael safle a darparu cynllun manwl cyn yr ymgynghoriad wedi ymddangos i achub y blaen ar ganlyniadau'r ymgynghoriad.

Ni fychanwyd graddfa'r prosiect i weithredu'r cynnig hwn, a chydnabuwyd y buasai llawer o amser, ymdrech a buddsoddi'n ofynnol i gyflawni gweledigaeth yr Awdurdod o adnodd Cymunedol yn Nyffryn Aman Uchaf.

Pryderon yr Ymatebwyr am Risg	Ymateb yr Awdurdod Tân ac Achub	Ymateb
Amheuon parthed â'r achos busnes, gweithredu'r cynnig a'i ymarferoldeb	Paratowyd y costau arwyddol ar gyfer yr opsiwn. Bydd angen datblygu cynllun manwl i gwmpasu pob agwedd o'r prosiect, os cytunir i'r cynnig. Efallai y buasai llunio cynllun manwl cyn yr ymgynghoriad wedi ymddangos i achub y blaen ar ganlyniadau'r ymgynghoriad.	6
Cafodd ei grybwyll gan Aelodau Cynulliad, corff cynrychiolaidd ac aelodau o gynghorau Tref a Chymuned		

Ni ymgymerwyd ag astudiaeth diochonoldeb i recriwtio darpar ddiffoddwyr tân nac i sicrhau y gall y criwiau llawn amser presennol gyflenwi gyda'r nos.	Efallai y buasai ymgymryd ag astudiaeth dicholodeb cyn yr ymgynghoriad wedi ymddangos i achub y blaen ar ganlyniadau'r ymgynghoriad. Bydd recriwtio'n cael ei dargedu at y cymunedau perthnasol.	4
Cafodd ei grybwyll gan staff ac aelod o gyngor tref a chymuned		

Ni fydd gweithgarwch yn Nyffryn Aman Uchaf yn cynnal gorsaf dân wrth gefn.	Cyfrifwyd gweithgarwch digwyddiad amcanol ar gyfer yr ardal hon gan ddefnyddio data hanesyddiol, ac amcangyfrifwyd tuag 200 o ddigwyddiadau'r flwyddyn. Caiff cynlluniau diogelwch yn y gymuned eu targedu at ostwng y nifer yma. Mae hyn yn briodol ar gyfer gorsaf wrth gefn.	1
Cafodd ei grybwyll gan aelod o'r cyhoedd		

Mae rhannu safle yn Nyffryn Aman Uchaf gyda'r Heddlu yn afrealistig gan bod yr Heddlu newydd symud i orsaf newydd yn Rhydaman. Mae rhannu safle yn Nyffryn Aman Uchaf gyda'r Gwasanaeth Ambiwlans yn afrealistig oherwydd bod yr orsaf ambiwlans yng Nglanaman wedi cau ers blynyddoedd bellach.	Ni wnaethpwyd unrhyw gytundeb ffurfiol gyda'r gwasanaethau brys eraill ar rannu safle. Fodd bynnag, buasai'r cynnig hwn yn rhoi cyfle ar gyfer gwaith partneriaeth rhwng yr holl wasanaethau a phartneriaid posib yn yr ardal, ac yn galluogi safle a rennir i gael ei defnyddio gan y Gymuned. Mae hwn yn faes y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awyddus i'w hyrwyddo.	1
Cafodd ei grybwyll gan aelod etholedig o Gyngor Castell-nedd a Phort Talbot dros Frynaman Isaf.		

Ar gyfartaledd, mae criwiau yn cynnal 1,000 o HFSA'au y flwyddyn. Buasai criw dydd yn lleihau'r nifer gan na fyddai archwiliadau yn cael eu cynnal gyda'r nos.	Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, bydd adnoddau'n cael eu hatgyfeirio i gynnal HFSA'au. Bydd staff diogelwch yn y gymuned ymroddedig yn medru targedu cartrefi risg uchel yn yr ardal, ac ar adeg sy'n gweddu orau â'r gymuned, ac ymgymryd â nifer yn fwy o archwiliadau.	9
Cafodd ei grybwyll gan staff a chorff cynrychiolaidd		

Byddai rhyddhau 14 o bersonél o Bontardawe yn treiddio i mewn i swyddi gweithredol ac i lenwi swyddi gwag, ac nid ar gyfer dyletswyddau diogelwch yn y gymuned.	Bydd yr adnodd sy'n gysylltiedig â'r 14 o swyddi'n cael ei ddefnyddio i ddarparu ar gyfer ardaloedd sy'n flaenoriaeth pennaf. Mae darparu cyflenwad llawn amser ym Mhontardawe wedi cael ei nodi fel gor-ddarpariaeth.	2
Cafodd ei grybwyll gan staff		

7.1.8 Ystyriaethau Ariannol

Darparwyd costau arwyddol i ddangos y costau sefydlu bras a'r swm blynyddol bras a ryddheir ar gyfer blaenoriaethau eraill. Heriwyd yr adnoddau a ryddheir a'r gostyngiad cyffredinol i'r risg yn erbyn y cynnydd tybiedig yn y risg yn ardal Pontardawe. Teimlai'r Aelodau Cynulliad lleol y byddai cost y cynnig yn afresymol. Roedd yr Awdurdod wedi ystyried y buasai'r prosiect yn galw am fuddsoddiad sylweddol ond y buasai hyn, rhwng popeth, yn well defnydd o'u hadnoddau.

Pryderon yr Ymatebwyr am Risg	Ymateb yr Awdurdod Tân ac Achub	Ymateb
Nid yw'r swm a ryddheir gan y cynnig i'w atgyfeirio werth y cynnydd yn y risg i fywydau.	Bydd yr adnodd a atgyfeirir yn cael ei gyfeirio tuag at yr ardaloedd mae'r Awdurdod yn ystyried sydd â'r risg fwyaf, er mwyn lleihau risg yn ardal y Gwasanaeth.	6
Cafodd ei grybwyll gan staff, corff cynrychiolaidd ac aelod o gyngor tref a chymuned		

Buasai'r swm bras a ryddheir bob blwyddyn yn gostwng oherwydd y cynnydd mewn taliadau i griwiau wrth gefn i fod wrth law	Mae'r costau a ddarparwyd ar gyfer yr opsiwn yn amcanol. Mae'r trefniadau wrth law yn cael eu hadolygu i sicrhau bod y lefel angenrheidiol o gyflenwad yn cael ei gynnal. Mae costau cynnal Pontardawe fel gorsaf criw llawn amser yn llawer mwy na'r gost o gefnogi criw wrth gefn.	2
Cafodd ei grybwyll gan staff		

Caiff y cynnig ei ysgogi gan arbedion	Nid yw'r cynnig yn gwneud unrhyw arbedion ariannol o gwbl. Bydd yr adnoddau a ryddheir yn cael eu hail-fuddsoddi mewn meysydd eraill sy'n flaenoriaeth. Mae gan yr Awdurdod rwymedigaeth i ddefnyddio ei adnoddau i leihau risg yn y modd mwyaf effeithiol. Bydd yr adnoddau a ryddheir yn cael eu defnyddio yn y meysydd sydd eu hangen fwyaf.	3
Cafodd ei grybwyll gan staff a chorff cynrychiolaidd		

Buasai costau Cyfalaf a Refiniw'r cynnig yn afresymol	Mae costau cychwynnol y sefydlu'n sylweddol. Mae'r Awdurdod wedi ystyried hyn ac mae'n teimlo ei fod yn barod i wneud y buddsoddiad er mwyn gwella'r risg. Bydd costau cyfalaf a refiniw yn cael eu hymgorffori yn y gyllideb, ac maent yn gynwysedig yn y cyfrifiadau.	2
Cafodd ei grybwyll gan Aelodau Cynulliad		

7.1.9 Ymatebion eraill

Fe wnaeth y cynnig ddenu nifer o sylwadau eraill a grynhowyd isod.

Pryderon yr Ymatebwyr am Risg	Ymateb yr Awdurdod Tân ac Achub	Ymateb
Dylai Pontardawe fod yn mynychu'r ardaloedd a gwmpaswyd gan orsafoedd eraill, oherwydd y buasent yn cyrraedd yng nghynt. Newidiwyd y trefniadau cyflenwi dros y blynyddoedd diwethaf, i atgyfnerthu'r achos dros griw dydd.	Mae hwn yn ganfyddiad cyffredin ymhlith llawer o bersonél gorsaf sy'n dadlau am ffiniau gydag ardaloedd gorsafoedd gerllaw. Y bwriad o hyd yw i'r peiriant agosaf i fynychu digwyddiad. Bydd unrhyw gais i newid presenoldeb yn cael ei brosesu drwy'r sianeli cywir a'i werthuso er mwyn darparu'r presenoldeb agosaf. Bydd gwelliannau i'r system fobileiddio'n cyfrannu wrth ddewis y peiriant agosaf ar gyfer pob digwyddiad.	3
Cafodd ei grybwyll gan gorff cynrychiolaidd, staff a chynghorau tref a chymuned		

Derbyniwyd rhai ymatebion yn datgan eu bod yn gwrthod y cynnig ond ni ddarparwyd rhesymau. Cyflwynwyd deiseb ac arni 5,000 o lofnodion oddi wrth drigolion lleol, gan yr Aelod Cynulliad Lleol, yn gwrthwynebu'r cynnig i 'ddiraddio Gorsaf Dân Pontardawe' Sefydlwyd deiseb ar safle gwe '10 Stryd Downing' yn gwrthwynebu '*i Orsaf Dân Pontardawe i gael ei diraddio neu ei* ***chau****'.*	Nid yw'r Awdurdod yn medru ymateb lle na roddwyd rhesymau penodol dros wrthwynebu. Fodd bynnag, byddwn yn ystyried nifer yr ymatebion yma. Mae deiseb '10 Stryd Downing' yn cyfeirio at gau Gorsaf Dân Pontardawe ac felly mae'n gamarweiniol ac ni fydd yn cael ei ystyried.	8 a 2 ddeiseb
Cafodd ei grybwyll gan aelodau o'r cyhoedd, staff, Aelodau Cynulliad, aelodau cyngor tref a chymuned		

7.1.10 Dadansoddi'r Ymatebion

Dadansoddwyd pob un o'r ymatebion, a darganfuwyd bod y ddadl broffesiynol yn gadarn ac ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth newydd i'r Awdurdod, er ei bod hi'n amlwg bod rhai o'r negeseuon y bu'r Awdurdod yn awyddus i'w cyfleu wedi cael eu camliwio. Er gwaethaf ymdrechion yr Awdurdod i gyflwyno'r ffeithiau a hyrwyddo'r manteision a fyddai'n deillio o'r cynnig, mae yna wrthwynebiad chwyrn i'r cynllun oddi wrth y cyhoedd, staff ac aelodau etholedig ar bob lefel. Derbyniwyd ymatebion oddi wrth 131 o unigolion a sefydliadau, a cheir poblogaeth o bron i 900,000 yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. Mae hyn yn dal i fod yn nifer cymharol fach o ymatebion o ystyried y nifer fawr o fudd-ddalwyr a ymgynghorwyd â nhw.

Rhagwelwyd y gwrthwynebiad i'r newidiadau ym Mhontardawe, ond roeddem yn fwy siomedig gyda'r diffyg cefnogaeth ar gyfer creu adnodd Cymunedol newydd yn Nyffryn Aman Uchaf, yn enwedig oddi wrth drigolion a chynrychiolwyr yr ardal. Derbyniwyd sylwadau cadarnhaol oddi wrth Undeb y Diffoddwyr Tân Wrth Gefn ar ddarparu adnodd cymunedol a'r manteision byddai'n ei roi i'r gymuned. Roedd Cyngor Cymuned Betws yn cefnogi'r cynnig i ddarparu gorsaf newydd ond roedd yn anghytuno'n gryf â'r cynnig i adleoli'r peiriant o Rydyman i ddarparu ar gyfer y cyfleuster hwn.

Rhoddodd aelodau etholedig awdurdod lleol Dyffryn Aman Uchaf ymatebion manwl yn gwrthod y cynnig a roedd dau o'r asiantaethau sy'n cynrychioli cymunedau yn yr ardal, sef Rhwydwaith Gymunedol Rhydaman a Chymunedau'n Gyntaf yn Nyffryn Aman Uchaf, yn gwrthwynebu unrhyw opsiwn a fyddai naill ai'n adleoli'r peiriant o Rydaman neu'r dileu'r trefniant criw llawn amser 24 awr ym Mhontardawe.

Hefyd, fe wnaeth y cynnig ddenu gwrthwynebiad oddi wrth Awdurdod Unedol lleol Castell-nedd a Phort Talbot, Aelodau Cynulliad lleol a'r ardal ehangach, ac oddi wrth gynrychiolwyr Cyngor Tref a Chymuned. Hefyd, darparodd Undeb y Brigadau Tân ddogfen hir yn manylu ynghylch eu gwrthwynebiad i'r cynnig.

Bydd gweithredu'r cynllun yn cymryd cryn dipyn o amser ac ymdrech ar ran y Gwasanaeth a gall barhau i ddenu gwrthwynebiad oddi wrth bobl yr ardal hon a'u cynrychiolwyr gwleidyddol, yn lleol ac yn genedlaethol. Mae'r ddadl wleidyddol dros fabwysiadu'r cynnig wedi dwyn i ystyriaeth bod y gwleidyddion, staff ac aelodau o'r cyhoedd, a aeth i'r drafferth o ymateb, wedi dangos eu gwrthwynebiad i'r cynllun.

Mae'r Awdurdod wedi ystyried yn ofalus yr holl wybodaeth a ddarparwyd fel rhan o'r broses o ymgynghori, yn ogystal â phroffil yr ymatebwyr. Er gwaethaf gwrthwynebiad cryf i'r cynnig, mae'r Awdurdod yn fodlon na chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth newydd i newid eu barnau gwreiddiol. Dadansoddwyd y meysydd sy'n peri pryder yn fanwl, a darganfuwyd bod yr holl faterion a gafodd eu crybwyll wedi cael eu hystyried gan yr Awdurdod wrth ddewis eu cynigion gwreiddiol, a chynigwyd ymatebion priodol yn yr adroddiad hwn ar y pryderon yma.

7.2 Cynnig 2 –
Systemau dyletswydd yn ein gorsafoedd criw llawn amser.

Roedd yr Awdurdod yn dymuno cyflawni newidiadau i'r system dyletswydd bresennol, er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau, a roedd yn dymuno gwybod beth oedd yn bwysig i'r staff er mwyn cyfarwyddo unrhyw newidiadau.

Cydnabuwyd cyfyngiadau'r system dyletswydd sifft bresennol, yn aml mae peiriannau'r gweithredu gyda llai o griw na'r arfer ac nid dyma sy'n ofynnol gan yr Awdurdod o ran diogelwch diffoddwyr tân. Hefyd, mae yna achlysuron pan fod mwy o staff ar ddyletswydd nag sydd eu hangen oherwydd y ffordd mae'r system bresennol yn gweithredu. Mae systemau sifft gwahanol yn gweithredu mewn mannau eraill yn y wlad a bu'r ymgynghoriaeth yn gweithio gyda swyddogion i roi cyngor ar yr astudiaethau cenedlaethol sydd ar waith, a'r hyn a ellir ei gyflawni trw gyflawni newidiadau i'n system bresennol.

Yn hytrach na chymryd yn ganiataol ein bod ni'n gwybod beth sy'n bwysig i staff ystyriwyd, cyn gwneud unrhyw waith pellach, ei bod hi'n briodol gofyn i'r staff am eu barnau. Ymgynghorwyd ynghylch y cynnig yn y Cynllun Gweithredu drafft, gyda peth gwybodaeth yn cael ei ddarparu ar pam yr oeddem yn teimlo'r angen i ymgymryd â'r astudiaeth, a beth yr oeddem yn dymuno'i gyflawni.

Gwnaethpwyd hi'n glir nad oedd penderfyniad wedi'i wneud parthed â system dyletswydd ac na fyddai unrhyw newidiadau'n cael eu gwneud oni bai fod yna fanteision sylweddol i ddiogelwch y cyhoedd a staff trwy wneud hynny. Yr hyn sy'n ofynnol oddi wrth system newydd yw:-

- Cynyddu lefelau criwio i wella diogelwch diffoddwyr tân, gyda'r nod o gyflawni lefel 100% bob amser
- Gwneud defnydd mwy effeithlon o adnoddau
- Llai o adegau pan nad yw staff yn cael eu defnyddio i'r eithaf yn ystod cyfnodau "tawel"
- Lleihau absenoldeb staff
- Cynyddu'r gallu i hyfforddi oddi ar yr wylfa
- Rhoi mwy o ragweladwyedd i'r staff o ran gwyliau
- Darparu'r nifer cywir o staff sydd eu hangen bob amser a rhoi mwy o hyblygrwydd

Ymatebion i'r cynnig

Gwahoddwyd sylwadau ar yr hyn a oedd yn ofynnol oddi wrth system dyletswydd newydd a'r effaith byddai'n cael ar staff. Gwnaethpwyd rhai sylwadau yn cefnogi'r cynnig, yn gyffredinol, gan y Cynghorau Tref a Chymuned yn bennaf, ond yn cynnwys rhai amodau, ac adroddir am y sylwadau yma isod.

Sylwadau'r Ymatebwyr ar Ddynesiad	Ymateb yr Awdurdod Tân ac Achub	Ymateb
Dylid bod modd cyfiawnhau'r newidiadau trwy ddadansoddi cadarn a thystiolaeth glir.	Cyngor Tref a Chymuned	1
Mae adolygu'r system dyletswydd yn arfer rheoli da. Bydd hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd tra'n cynnal safonau proffesiynol a llai o wastraff.	Cyngor Tref a Chymuned	5
Ni ddylai effeithio ar y math o griw, amserau ymateb a'r nifer sy'n mynychu.	Diwydiant/Masnach Awdurdod Iechyd Cyngor Tref a Chymuned	21
Dylid ymgynghori â'r Staff a'r cyrff cynrychiolaidd, a'u cynnwys yn y gwaith.	Aelodau o staff Cyngor Tref a Chymuned	4
Dylai cefnogaeth a hyblygrwydd fod ar gael i staff a gyflyrwyd i'r system newydd.	Aelodau o staff	1
Dylai unrhyw newidiadau fod o fudd i bob parti	Aelodau o staff	3
Cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig	Cyngor Tref a Chymuned	1

Mae'r sylwadau yma'n briodol ac fe'u hystyrir yn fuddiol wrth gyfarwyddo gwaith y prosiect, i gyflawni newidiadau i'r system bresennol.

7.2.1 Ymatebion Negyddol

Yn ôl y disgwyl, daeth mwyafrif y sylwadau oddi wrth staff, a roedd ganddynt farnau cryf am yr hyn oedd yn bwysig iddynt. Derbyniwyd llawer o ymatebion negyddol, a oedd yn mynegi pryderon yn y meysydd canlynol, gydag ymateb, neu sylw gan, yr Awdurdod:-

Ymatebion negyddol	Ymateb yr Awdurdod Tân ac Achub	Ymateb
Does dim angen archwilio'r System Dyletswydd	Nid yw'r Awdurdod yn cytuno. Gellir gwella'r system bresennol, a gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau, a gellir cyflawni gwell darpariaeth fel a amlinellwyd uchod.	15
Cafodd ei grybwyll gan staff, corff cynrychiolaidd, Cyngor Tref a Chymuned ac aelod o'r cyhoedd		

Does dim digon o wybodaeth ar gael am y cynnig	Nid yw'r cynnig yn cynnwys system dyletswydd enghreifftiol, oherwydd nad ydym wedi cytuno ar system. Archwiliwyd nifer o wahanol systemau ac mae'r ymgynghorwyr wedi rhoi cyngor parthed â'r hyn a ellir ei gyflawni. Bwriad yr ymgynghoriad yw casglu gwybodaeth i ddatblygu'r system orau.	9
Cafodd ei grybwyll gan staff yn bennaf		

Ymarfer i gwtogi costau yw hwn	Y bwriad yw defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon, er mwyn cyflawni'r manteision a amlinellwyd yn y cynllun.	4
Cafodd ei grybwyll gan staff		

Nid yw'r ymgynghorwyr yn deall y drefn mewn gorsafoedd; staff sydd yn y sefyllfa orau i gyfarwyddo'r broses.	Bydd yr ymgynghorwyr a gyflogwyd yn gweithio gyda'r staff i ddwyn i ystyriaeth y sylwadau a wnaed fel rhan o'r broses hon. Maent wedi gweithio gyda llawer o Wasanaethau Tân ac Achub, yn ogystal â sefydliadau eraill, ac maent yn brofiadol mewn meysydd gweithredol a'r drefn mewn gorsafoedd, a gallant roi cyngor ar fanteision ac anfanteision systemau dyletswydd eraill. Bwriedir sefydlu gweithgor i ddatblygu'r prosiect. Bydd y cyrff cynrychiolaidd ynghlwm wrth y trafodaethau parhaus.	5
Cafodd ei grybwyll gan staff a chorff cynrychiolaidd		

Buasai gostyngiad yn y nifer ar ddyletswydd yn effeithio ar y modd mae peiriannau arbennig yn cael eu criwio	Argymhellir criw safonol ar gyfer peiriannau sylfaenol, hefyd bydd gan beiriannau arbennig griw sylfaenol. Bydd peiriannau arbennig eraill yn cael eu criwio yn yr un modd ag y mae nhw nawr.	2
Cafodd ei grybwyll gan staff		

7.2.2 Beth mae staff eisiau oddi wrth system dyletswydd

O'r ymatebion a dderbyniwyd, roedd y staff yn glir am yr hyn yr oeddent eisiau ei gynnal, a daeth yn amlwg fod yna rai materion arwyddocaol i'r staff pan yn ystyried beth oedd yn bwysig o ran system dyletswydd.

Beth mae staff eisiau oddi wrth system dyletswydd	Ymateb yr Awdurdod Tân ac Achub	Ymateb
Mae'r Staff yn hoffi'r system 4 ar ddyletswydd 4 oddi ar ddyletswydd	Dyma'r patrwm sifft a weithir ar hyn o bryd. Mae'n batrwm sifft effeithiol ac ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth i awgrymu na ddylid cadw at y patrwm hwn.	25
Roedd yna gefnogaeth llethol i gynnal y system hon, oddi wrth staff a'r corff cynrychiolaidd yn bennaf		

Mae'n system deulu gyfeillgar ac mae'n caniatâu ar gyfer trefniadau hyblyg	Mae'r Staff yn ystyried bod y system bresennol yn deulu gyfeillgar a hyblyg. Bydd hyn yn ystyriaeth i'r system dyletswydd newydd.	23
Cafodd ei grybwyll yn bennaf gan staff		

Addaswyd y trefniadau yn yr orsaf i ddiwallu amcanion y Gwasanaeth. Ymgymerir â dyletswyddau diogelwch yn y gymuned yn ystod y dydd ac yn gynnar yn y nos. Mae hyfforddiant yn cael ei gyflawni yn ystod y sifft nos.	Mae'r gallu i ymgymryd â dyletswyddau diogelwch yn y Gymuned yn ystyriaeth bwysig. Buasai unrhyw system newydd yn cefnogi'r trefniadau hyfforddi ar wylfa presennol ac yn darparu gwell fframwaith ar gyfer hyfforddiant tu allan i'r wylfa.	9
Cafodd ei grybwyll gan staff a chorff cyrnychiolaidd.		

Gellir darogan a cheisio gwyliau blynyddol o flaen llaw ac mae yna hyblygrwydd ar gyfer newidiadau.	Bydd hyn yn ystyriaeth i'r system dyletswydd newydd. Bydd y trefniadau ar gyfer newid gwyliau'n cael eu harchwilio.	6
Cafodd ei grybwyll gan staff		

Dylai'r amser oddi ar ddyletswydd roi digon o amser i orffwys rhwng sifftiau	Cytuno.	1
Cafodd ei grybwyll gan staff		

Gellir adolygu amser cychwyn y sifft nos. Mae'r amser newid drosodd presennol yn amser da i gyflawni dyletswyddau diogelwch yn y Gymuned. Gellir cyflawni gwaith mwy cynhyrchiol yn ystod y sifft nos.	Bydd amserau cychwyn y sifft llawn amser yn cael eu hystyried yn unig os oes digon o dystiolaeth a chefnogaeth i ddangos unrhyw fudd.	1
Cafodd ei grybwyll gan ymatebydd anhysbys ac aelod o staff		

Mae'r system sifft bresennol yn caniatâu perthynas waith agos, sy'n gefnogaeth yn ystod digwyddiadau difrifol	Bydd hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r prosiect parhaus	2
Aelod o staff		

Mae'r Awdurdod yn siomedig na wnaeth mwy o staff fanteisio ar y cyfle i ymateb i'r cynnig ac na dderbyniwyd mwy o ymatebion adeiladol, ond mae'n ddiolchgar iawn i'r staff a rodd o'u hamser i gyflwyno eu sylwadau. Bu'r ymatebion a dderbyniwyd yn amhrisiadwy wrth gadarnhau'r hyn mae'r staff a'r gymuned eisiau oddi wrth system dyletswydd. Nodwyd y pryderon ynglŷn â sut fydd unrhyw newidiadau'n cael eu gweithredu, a'r angen i gyflawni enillion effeithlonrwydd, ond heb effeithio ar allu gweithredol, a byddant yn cael eu defnyddio i gyfarwyddo'r broses. Ni wnaethpwyd unrhyw sylwadau sy'n rhoi tystiolaeth sy'n groes i brif amcanion y cynnig. Bydd y sylwadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad yn siapio ac yn cyfarwyddo cam nesaf y broses o ddatblygu.

8.0 Casgliadau

Derbyniodd yr Awdurdod rai sylwadau cadarnhaol parthed â'i symudiad tuag at atal ac addysg, a'i gyflawniadau dros y flwyddyn ddiwethaf i leihau risg, gyda phwyslais arbennig ar y gostyngiad mewn tanau damweiniol yn y cartref. Mae'r sylwadau yma'n ardystio'r strategaeth a ddilynir gan yr Awdurdod, mewn ymdrech i wella diogelwch yn y gymuned.

8.1 Opsiynau i Leihau Risg yn Ardaloedd Cwm Tawe Uchaf a Dyffryn Aman Uchaf

O safbwynt cynigion ymyrraeth yr Awdurdod, cafwyd peth cefnogaeth yn gyffredinol i'r gwelliannau a fwriadwyd o ran diogelwch yn y gymuned a darparu gorsaf dân newydd. Mae'n deg dweud i fwyafrif yr amheuon gael eu mynegi ynglŷn â'r mater o newidiadau i'r trefniadau criwio ym Mhontardawe. Teimlai llawer na ellid cyfiawnhau lledaenu adnoddau fel hyn, a buasai'n cael effaith niweidiol ar gyflawni gwasanaeth ac yn arwain at gynnydd annerbyniol mewn amserau ymateb. Daeth y gwrthwynebiad mwyaf chwyrn oddi wrth y Cymunedau a'r staff a effeithir yn uniongyrchol, a'r aelodau etholedig sy'n eu cynrychioli, ar lefel lleol a chenedlaethol.

Roedd cryfder yr ymateb a'r emosiynau a gyffrowyd mewn gwrthwynebiad i'r cynnig, ar bob lefel, yn arwyddocaol. Derbyniwyd sylwadau yn gwrthwynebu'r cynnig oddi wrth pob un o'r grwpiau o fudd-ddalwyr ac ar bob lefel. Fe wnaeth yr Aelodau Seneddol a'r Aelodau Cynulliad a ymatebodd i'r ymgynghoriad gyflwyno sylwadau yn gwrthwynebu'r cynnig. Darparodd rhai Aelodau Cynulliad, yn enwedig yr aelod dros Gastell-nedd a'r cyn Weinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, ymatebion hir a manwl yn amlinellu eu pryderon. Hefyd, cyflwynodd Aelod Cynulliad Castell-nedd ddeiseb ac arni dros 5,000 o lofnodion gan drigolion lleol, yn gwrthwynebu'r newidiadau i'r trefniadau criwio ym Mhontardawe.

Yn eu hymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad, fe wnaeth Cyngor Castell-nedd a Phort Talbot, tra'r oeddent yn edmygus o gyflawniadau'r Awdurdod o ran diogelwch yn y gymuned, leisio eu gwrthwynebiad chwyrn i newid y trefniadau criwio ym Mhontardawe, er gwaethaf y ffaith ein bod wedi darparu sesiwn friffio ar y cynigion. Hefyd, cafwyd gwrthwynebiad oddi wrth aelodau awdurdod lleol yn Nyffryn Aman Uchaf a mudiad 'Cymunedau'n Gyntaf' yr ardal, yn ogystal ag oddi wrth y cynghorau Tref a Chymuned yn gyffredinol.

Roedd yna ddiffyg ymateb a chefnogaeth nodadwy oddi wrth y cymunedau yn Nyffryn Aman Uchaf, lle cynigwyd adeiladu'r orsaf newydd. Rhagwelwyd y buasai trigolion yr ardal yn croesawu'r cynnig, ond ni wnaethant ymateb yn ffurfiol i'r ymgynghoriad.

Daeth y nifer fwyaf o ymatebion oddi wrth aelodau o staff, a roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr yma'n gwrthwynebu'r cynnig yn chwyrn. Fe wnaeth staff Pontardawe ymgymryd ag ymgyrch gyd-drefnedig a chynaledig i ennyn cefnogaeth i gynnal y strwythur criwio presennol.

Darparodd Undeb y Brigadau Tân adroddiad mewn ymateb i'r ymgynghoriad ac, yn ôl y disgwyl, roeddent yn gwrthwyneb'r cynigion yn chwyrn, yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn amserau ymateb, maent yn credu y gallai peiriant Pontardawe gyrraedd ardaloedd risg uchel yn Nyffryn Aman Uchaf a gwaredu peiriant o Rydaman. Yn eu hymateb, fe wnaeth Undeb y Diffoddwyr Tân Wrth Gefn groesawu'r cynnig i ddarparu gorsaf dân wrth gefn newydd yn Nyffryn Aman Uchaf.

Cydnabuwyd y lluniwyd rhai meysydd o'r achos busnes i ddarparu'r newidiadau a amlinellwyd yn y cynnig, gan ddefnyddio peth gwybodaeth a chostau arwyddol. Oherwydd bod y cynnig yn agored i ymgynghoriad, ac efallai na fuasai'n cael ei gymeradwyo, ystyriwyd bod defnyddio gwybodaeth arwyddol, lle bod angen, i gyfarwyddo'r broses yn briodol. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y bydd gweithredu'r newidiadau yn Nyffryn Aman Uchaf a Chwm Tawe Uchaf yn golygu cynllunio'r prosiect yn fanwl a bydd y broses o gynllunio'r prosiect yn dwyn i ystyriaeth y meysydd a nodwyd gan yr Awdurdod, ac a gadarnhawyd o ganlyniad i'r broses o ymgynghori. Bydd yn cymryd amser, ymdrech a buddsoddiad ar ran yr Awdurdod i sylweddoli'r newidiadau, a bydd yn golygu gweithio gyda phartneriaid i fwyhau manteision y gwelliannau.

Bu'r ymateb gwleidyddol i'r cynnig yn destun cryn ddadlau gan fod mwyafrif y gwleidyddion, sydd wedi rhoi o'u hamser i ymateb, wedi dangos eu gwrthwynebiad cadarn i'r cynllun, ac efallai y byddant yn parhau i wneud. Caiff y gwrthwynebiad hwn ei adleisio gan y staff a'r cyhoedd.

Mae'r Awdurdod wedi ystyried yn ofalus yr holl wybodaeth a ddarparwyd fel rhan o'r broses o ymgynghori, a hefyd fe wnaeth ystyried proffil yr ymatebwyr. Er gwaethaf gwrthwynebiad cryf i'r cynnig, mae'r Awdurdod yn fodlon nad ydynt wedi derbyn unrhyw dystiolaeth newydd i newid eu barnau gwreiddiol. Dadansoddwyd y meysydd sy'n peri pryder yn fanwl, a darganfuwyd bod yr holl faterion a gafodd eu crybwyll wedi cael eu hystyried gan yr Awdurdod wrth benderfynu ar y cynigion gwreiddiol. Gwnaethpwyd ymatebion yn yr adroddiad hwn i'r meysydd sy'n peri pryder.

Gan bod y ddadl broffesiynol dros gyflawni'r newidiadau yma'n gadarn o hyd, teimla'r Awdurdod mai'r cam gweithredu priodol fyddai cadarnhau'r cynnig gwreiddiol. Felly, mae gweithredu'r newidiadau yma'n ddilys a bydd yn cychwyn yn 2008/2009.

8.2 Systemau dyletswydd yn ein gorsafoedd criw llawn amser.

Yn ôl y disgwyl, derbyniwyd mwyafrif yr ymatebion i'r cynnig i newid y system dyletswydd mewn gorsafoedd sifft oddi wrth aelodau o staff, ac mae'r sylwadau a gyflwynwyd wedi darparu gwybodaeth werthfawr ar yr hyn sy'n bwysig iddynt oddi wrth system dyletswydd. Daeth yr ymatebion eraill oddi wrth y Cynghorau Tref a Chymuned ac Undeb y Brigadau Tân yn bennaf.

Daeth y sylwadau a oedd yn cefnogi newid y system dyletswydd i gyflawni'r amcanion a restrwyd yn y gynllun oddi wrth y Cynghorau Tref a Chymuned yn bennaf, a oedd hefyd yn argymell na ddylai fod yna unrhyw ostyngiad yng ngallu gweithredol y Gwasanaeth, ac y dylai fod yna ymgynghori effeithiol gyda'r staff.

Yn eu hymateb, fe wnaeth aelodau o staff ddynodi nad oedd y cynllun yn cynnwys digon o wybodaeth i'w galluogi i wneud sylwadau manwl am y cynnig. Nid oedd y cynnig yn cynnwys system ddyletswydd enghreifftiol oherwydd nad ydym wedi cytuno ar system eto. Archwiliwyd nifer o wahanol systemau a rhoddodd yr ymgynghorwyr gyngor ar yr hyn a ellid ei gyflawni.

Roedd llawer o'r ymatebion a wnaed gan staff yn dynodi nad oedd angen newid y system bresennol, ond hefyd roeddent yn dynodi manteision eraill y buasent yn hoffi eu gweld. Mae dadansoddiad o'r ymatebion wedi cadarnhau bod y system sifft bresennol, o 4 ar ddyletswydd a 4 oddi ar ddyletswydd, yn hynod o bwysig i'r staff, ac maent yn teimlo fod y system hon yn deulu gyfeillgar, yn galluogi i wyliau i gael eu trefnu o flaen llaw ac mae'n galluogi iddynt gyflawni eu gweithgareddau ymyrraeth ac atal.

Gweithredu

Fe wnaeth y gwaith cychwynnol a wnaed yngylch y cynnig hwn ganfod y gellid cyflawni manteision sylweddol trwy gyflawni newidiadau i'r system dyletswydd sifft. Ni wnaed unrhyw sylwadau yn ystod yr ymgynghoriad a oedd yn rhoi tystiolaeth sy'n groes i brif amcanion y cynnig. Bydd y sylwadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad yn siapio ac yn cyfarwyddo cam nesaf y broses o ddatblygu.

Bydd y prosiect i archwilio'n llwyr a gweithredu'r newidiadau i'r system dyletswydd yn cychwyn nawr. Byddwn yn gweithio gyda'n ymgynghorwyr i archwilio'r systemau presennol ymhellach, a byddwn yn cymryd cyngor ac yn ymgynghori gyda'r staff a'r cyrff cynrychiolaidd i ganfod y ffordd ymlaen. Bydd cynllun prosiect yn cael ei sefydlu i ddarparu system a fydd yn diwallu anghenion y sefydliadau a'i staff, fel a restrir isod:-

- Bydd gweithgor yn cael ei sefydlu
- Bydd cynigion manwl yn cael eu llunio mewn cydweithrediad â'r staff
- Bydd grwpiau ffocws yn cael eu trefnu
- Bydd trafodaethau'n cael eu cynnal gyda'r cyrff cynrychiolaidd
- Bydd rhaglen gyfathrebu'n cael ei datblygu gyda'r staff a effeithir yn uniongyrchol